# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaethau Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR CRAFFU GOFAL**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD IAU, 11EG EBRILL, 2024**

NODER: CYNHELIR SESIWN BRIFFIO I'R AELODAU AM 10.00YB

Lleoliad

**Cyfarfod Hybrid - Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH ac yn rhithiol trwy Zoom**

*** NODER ***

**Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu**

**https://gwynedd.public-i.tv/core/l/cy_GB/portal/home**

Pwynt Cyswllt

**Sioned Mai Jones**

**01286 679665**

**SionedMaiJones@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Mercher, 3 Ebrill 2024)

# PWYLLGOR CRAFFU GOFAL

## AELODAETH (18)

## Plaid Cymru (12)

Y Cynghorwyr

Menna Baines
Sedd Wag
Dewi Jones
Linda Morgan
Meryl Roberts
Sasha Williams

R Medwyn Hughes
Rheinallt Puw
Linda Ann Jones
Gwynfor Owen
Einir Wyn Williams
Jina Gwyrfai

## Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

Elwyn Jones
Eryl Jones-Williams
Angela Russell

Anwen J. Davies
Beth Lawton

## Llafur/Rhyddfrydol (1)

Y Cynghorydd Gareth Coj Parry

## Aelodau Ex-officio

Is-Gadeirydd y Cyngor

## Aelodau Eraill a Wahoddwyd

Cynghorydd Elin Walker Jones
Cynghorydd Dilwyn Morgan

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

I nodi unrhyw eitemau sydd yn fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION — 4 - 11

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar y 1af o Chwefror, 2024 fel rhai cywir.

## 5. GWEITHDREFN CWYNION, YMHOLIADAU A DIOLCHIADAU AR GYFER 2022-23 - ADRAN PLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD AC ADRAN OEDOLION, IECHYD A LLESIANT — 12 - 38

Paratoi Adroddiad Blynyddol ar weithrediad y Weithdrefn Sylwadau a Chwynion a'i gyflwyno i'r Cabinet a'r Pwyllgor Craffu er mwyn craffu a monitro'r trefniadau ar gyfer delio'n effeithiol â chwynion a dderbyniwyd gan ddefnyddwyr gwasanaeth a'u cynrychiolwyr.

## 6. GWASANAETH EGWYL FER (TÎM INTEGREDIG DERWEN) — 39 - 44

Er mwyn cael sicrwydd bod darpariaeth addas ar gael i bawb sydd angen y gwasanaeth.

## 7. GRŴP TASG A GORFFEN CYNLLUN AWTISTIAETH — 45 - 51

I gyflwyno canfyddiadau ac argymhellion y Grŵp Tasg a Gorffen.

# PWYLLGOR CRAFFU GOFAL DYDD IAU, 1 CHWEFROR 2024

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Beth Lawton (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** Linda Ann Jones, Menna Baines, Meryl Roberts, Gwynfor Owen, Linda Morgan, Dewi Jones, Angela Russell, Rheinallt Puw, Anwen J Davies, Elwyn Jones, Jina Gwyrfai ac R Medwyn Hughes.

**Swyddogion yn bresennol:** Llywela Haf Owain (Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu) ac Annes Sion (Arweinydd Tîm Democratiaeth).

**Eraill a wahoddwyd:**

Huw Dylan Owen (Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol)

**Yn bresennol ar gyfer eitem 5:**

Hedd Thomas (Pennaeth Cynorthwyol Tai ac Eiddo)
Cara Owen (Rheolwr Prosiect Arweiniol (Cynllun Gweithredu Tai)

**Yn bresennol ar gyfer eitem 6:**

Cyng. Dilwyn Morgan (Aelod Cabinet dros Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant)
Cyng. Elin Walker Jones (Aelod Cabinet dros Blant a Chefnogi Teuluoedd)
Marian Parry Hughes (Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd)
Alun Gwilym Williams (Uwch Reolwr Busnes Oedolion, Iechyd a Llesiant)
Cadi Morus Parry (Prentis Cefnogi Busnes Iechyd a Gofal Cymdeithasol – Arsylwi)

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Einir Wyn Williams, Gareth Coj Parry, Sasha Williams ac Eryl Jones-Williams.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganodd y Cynghorydd Gwynfor Owen fuddiant i eitem 6 os yn trafod materion am yr elusen Gorwel neu Cynnal Gofalwyr – bu i Gorwel gael ei drafod a gadawodd y cyfarfod ar gyfer yr elfen hon.

Derbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan Cynghorydd Elwyn Jones ar gyfer eitem 6 gan ei fod yn aelod o Fwrdd GISDA sy’n derbyn arian ond nid oedd yn fuddiant a oedd yn rhagfarnu ar felly nid oedd angen iddo adael y cyfarfod.

## 3. MATERION BRYS

Dim i’w nodi.

## 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod blaenorol y pwyllgor hwn, a gynhaliwyd ar yr 23 Tachwedd 2023, fel rhai cywir.

## 5. CYNLLUN GWEITHREDU TAI

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fei bod yn rhoi trosolwg o'r cynnydd sydd i'w weld ar y Cynllun Gweithredu Tai. Amlygwyd fod cynnydd da i'w weld ers mabwysiadu'r Cynllun yn ôl yn mis Ebrill 2021 gyda:

- 241 tŷ cymdeithasol wedi'i adeiladu
- 202 tŷ gwag wedi dod yn ôl i ddefnydd
- 32 o unedau digartrefedd wedi neu wrthi'n cael ei godi
- 64 grant prynwyr am y tro cyntaf wedi'u rhoi er mwyn adnewyddu tai gwag
- 633 o grantiau addasiadau tai wedi'u dyrannu i alluogi pobl anabl barhau i fyw yn eu cartrefi.

Mynegwyd yn gyffredinol fod yr adran yn teimlo yn gryf eu bod yn cynnig amrywiaeth o gymorth ac ymyraethau ac o ganlyniad fod y cynlluniau yn diwallu anghenion unigolion mewn gwahanol ardaloedd o'r sir.

Tywyswyd yr aelodau drwy'r prosiectau gan gychwyn a "Datblygu ein tai eu hunain prynu tai preifat a phrynu tir adeiladu ar gyfer y dyfodol". Nodwyd fod y tri phrosiect yn anelu i gynyddu'r cyfleoedd sydd ar gael i bobl Gwynedd gan berchen neu rentu tŷ addas ar gyfer eu hanghenion. Eglurwyd o weithredu'r cynlluniau prynu ac adeiladu tai yn llwyddiannus yn ystod cyfnod y Cynllun Gweithredu Tai, bydd y Cyngor wedi codi 90 o dai ac wedi prynu 100 arall fydd ar gael i'w gosod i drigolion Gwynedd. Amlygwyd fod sawl datblygiad ar y gweill ar hyn o bryd gyda chwe datblygiad mewn lleoliadau megis Bangor, Llanystumdwy a Llanberis ar gamau gwahanol yn y broses.

O ran y Cynllun Prynu i Osod, nodwyd fod 18 o dai bellach wedi'u prynu gyda 6 arall yn y broses o gael eu prynu. Eglurwyd fod y tai yma yn cael eu prynu ar draws y sir ac mewn lleoliadau ble gellir ymateb i anghenion tai bobl leol. Ychwanegwyd cyn gosod yr eiddo fod rhaid dod a'r tai i safon byw derbyniol a statudol, ac fod yr adran wrthi'n trafod eu trefniadau gosod. Eglurwyd o ran prynu tiroedd, fod tiroedd wedi'i prynu ym Mynytho, Llanystumdwy a Caernarfon er mwyn eu datblygu yn y dyfodol. O ran tai Cymdeithasol, mynegwyd fod y Cyngor yn parhau i weithio'n agos gyda'r Cymdeithasau Tai i roi Rhaglen Datblygu Tai Cymdeithasol ar waith yn y sir. Anelir i gyrraedd targed o adeiladu 700 o dai cymdeithasol ar draws y sir yn ystod oes y cynllun. Ategwyd hyd ym fod 241 o dai wedi'u codi, gyda 279 ar y gweill a bod y rhaglen yn llawn ar gyfer 2024/25.

Tynnwyd sylw at y Cynllun Grantiau gan nodi fod y Cynllun Gweithredu yn cynnwys nifer o gynlluniau sy'n ymwneud a dyrannu grantiau er mwyn cynyddu'r cyfleoedd sydd ar gael i bobl Gwynedd. Eglurwyd yn ddiweddar fod y Cyngor wedi agor grant cynlluniau adfywio cymunedol sy'n darparu grantiau i grwpiau cymunedau ddarparu unedau byw i bobl leol. Nodwyd ers dechrau'r Cynllun fod 633 o addasiadau wedi'u gwneud i alluogi pobl i aros yn eu cartrefu. Eglurwyd y gall hyn gynnwys man addasiadau megis gosod rampiau neu waith strwythurol megis codi estyniadau neu addasu ystafelloedd. Tynnwyd sylw at Grantiau Tai Gwag i brynwyr tro cyntaf, gan amlygu fod tai gwag a fu'n arfer bod yn ail gartrefi bellach yn gymwys ar gyfer y grant.

Amlygwyd fod y sefyllfa yn parhau i fod yn ddyrys yn y maes digartrefedd gyda 70 i 100 o bobl yn cyflwyno eu hunain yn ddigartref bob mis a bod 217 mewn llety

argyfwng yn ôl ym mis Rhagfyr 2023. Pwysleisiwyd nad yw'r cyflenwad tai a llety a chefnogaeth yn ddigonol i ymateb i'r galw ac i ymdopi a'r pwysau sydd ar y gwasanaeth. Eglurwyd fod yr adran wedi penodi dau swyddog arbenigol i gefnogi unigolion sy'n cyflwyno'n ddigartref neu mewn peryg o fod o ganlyniad i broblemau iechyd meddwl neu gamddefnyddio sylweddau. Nodwyd fod 52 o unigolion wedi derbyn cefnogaeth gan y swyddogion.

Mynegwyd yn ystod Pwyllgor Crafu blaenorol fod yr adran wedi cydnabod fod angen gwella'r cyfathrebu rhwng yr Aelodau ac o ganlyniad mae'r adran wedi diweddaru tudalen benodol ar y Mewnrwyd Aelodau ac lansio map sy'n dangos lleoliadau rhai o'r prif gynlluniau sydd naill ai wedi'i gwblhau neu ar y gweill.

*Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-*

- Diolchwyd am yr adroddiad a holwyd os oes pryder am yr arian sydd ar gael ar gyfer addasu tai i bobl ag anableddau gan ei fod yn cael ei ariannu drwy grantiau.
    - Nodwyd fod pryder gan fod prisiau wedi cynyddu yn enwedig ar ôl Covid. Eglurwyd fod cyllidebau yn dynn ac nad yw'r ffigyrau ar hyn o bryd yn ddigonol i ddiwallu anghenion pob unigolyn.

- Nodwyd fod sôn am gynllun i addasu tai gweigion ac amlygwyd fod arian cyfalaf ar gael i'w prynu ond dim sôn am arian refeniw er mwyn caglu rhent ac i gynnal yr eiddo. Gofynnwyd sut y bydd y Cyngor yn cynnal a chadw'r eiddo.
    - Nodwyd drwy'r cynlluniau fod yr incwm yn cael ei ddefnyddio ar gyfer ad-dalu'r buddsoddiad ac fod arian i gynnal a chadw'r eiddo wedi ei gynnwys. O ran arbenigedd i edrych ar ôl yr eiddo eglurwyd fod trafodaethau yn cael eu cynnal ar hyn o bryd ac y bydd cyhoeddiad yn fuan. Pwysleisiwyd fod y Cyngor yn gweithio yn agos iawn a'r cymdeithasau tai.

- Holwyd beth yw'r tueddiadau o ran digartrefedd yng Ngwynedd - hynny yw a yw'r niferoedd yn cynyddu er bod poblogaeth y sir yn lleihau. Tynnwyd sylw yn gyson i beth yw'r rheswm dros ddigartrefedd, o ble mae'r unigolion yn dod ynghyd a gosod tai i bobl leol.
    - Mynegwyd fod nifer digartref yn uchel tu hwnt ac fod nifer o ddiffiniadau gwahanol i ddigartrefedd. Amlygwyd fod natur digartrefedd yn amrywiol ond fod materion fel tor perthynas a'r hinsawdd economaidd yn cael ei amlygu yn gyson. Nodwyd fod pwysau cynyddol i'w weld yn dilyn Covid a newid deddfwriaethol ac nad yw hyn yn broblem i Wynedd yn unig ond i'w weld yn un cenedlaethol.
    - O ran cyswllt â Gwynedd amlygwyd fod gan y mwyafrif sy'n nodi eu hunain yn ddigartref gyswllt lleol i Wynedd. Pwysleisiwyd yr angen iddynt amlygu eu cyswllt â Gwynedd er mwyn cyrraedd meini prawf rhestr digartrefedd. Eglurwyd os nad oes cyswllt lleol i'w gweld yng Ngwynedd gellir eu cyfeirio yn ôl i awdurdod ble mae cyswllt clir i'w weld. Eglurwyd yn ogystal fod angen cyswllt clir a Gwynedd os ar restr aros tai cymdeithasol yn ogystal yn unol â'r Polisi Tai Cymdeithasol.
    - O ran tai i bobl leol eglurwyd fod rhai tai gydag amod person lleol, a bod blaenoriaeth yn cael ei roi i unigolyn a chyswllt lleol wrth osod tai cymdeithasol. Pwysleisiwyd yr angen i drafod gyda'r adran gyfreithiol os am drafod rhoi amod lleol ar bob cartref.

- Gofynnwyd beth yw oes y Cynllun Gweithredu Tai ac os yw'r cynllun yn cyrraedd ei dargedau.
    - Nodwyd mai 2026/27 fydd blwyddyn olaf y cynllun, ond ei fod yn datblygu yn ystod ei oes a bod rhai cynlluniau yn mynd tu hwnt i oes y cynllun.

Mynegwyd o ganlyniad i natur y cynllun y bydd canran uchel o'r cynnydd yn cael ei weld o ganol i ddiwedd y 6 mlynedd. Pwysleisiwyd fod yr adran yn monitro yn chwarterol ond fod nifer o'r prosiectau wedi'u clymu o ran hinsawdd ariannol y farchnad. Yn gyffredinol, nodwyd fod y cynllun yn cyrraedd mwyafrif o'i dargedau.

- Amlygwyd fod llai cynlluniau datblygu tai a nifer isel o ymgeiswyr am grant tai gwag ym Meirionydd a gofynnwyd os oes rhesymau dros hyn.
  - Mynegwyd o ran cynlluniau datblygu tai fod yr adroddiad yn amlygu 6 cynllun tu hwnt i Feirionnydd ond fod yr adran yn parhau i edrych am safleoedd penodol ym Meirionydd.
  - O ran grantiau tai gwag nodwyd yr angen i gynnal sesiynau penodol yn Ne'r Sir er mwyn trio codi ymwybyddiaeth o'r grantiau ac i dargedu ardaloedd ble mae'r nifer sydd yn cymryd mantais i'w weld yn isel.

- Holwyd o ran cefnogaeth i unigolion oedd yn ddigartref o ganlyniad i drais yn y cartref pwy oedd yn darparu'r gefnogaeth sydd ar gael iddynt.
  - Eglurwyd fod pecynnau cymorth yn cael eu hariannu drwy arian grant a bod nifer o ddarparwyr yn cael ei defnyddio ar draws y sir er mwyn sicrhau fod y gefnogaeth yn cael ei gynnig gan unigolion ag arbenigedd.

- Amlygwyd fod yr adroddiad yn nodi arbedion sydd i'r gwasanaeth iechyd o ganlyniad i gefnogi unigolion aros yn eu cartrefi. Nodwyd siom nad yw'r Llywodraeth ddim yn cymryd sylw o hyn. Holwyd o ran cyllid os yw'r adran yn gwneud defnydd o bob ceiniog o grant tai cymdeithasol sydd ar gael, ac os mai'r Cyngor sydd yn ei dderbyn ac yna ei basio ymlaen i'r Cymdeithasau Tai. Yn ogystal â hyn gofynnwyd os oes modd defnyddio arian wrth gefn y Cyngor i ddefnydd adeiladu tai cymdeithasol gan ei gynnig fel morgais i'r Cymdeithasau Tai.
  - Nodwyd fod £12.3m yn dod i Wynedd dros 3 blynedd, a'u bod yn gwneud defnydd llawn o bob ceiniog ac wedi manteisio ar fwy o arian yn ogystal. Eglurwyd fod y Cyngor mewn sefyllfa gref gyda nifer o gynlluniau wrth gefn yn barod i fynd. Nodwyd fod y Cyngor yn gweithio gyda'r Cymdeithasau Tai i sicrhau fod y Cyngor yn blaenoriaethu ble a pa fath o eiddo fydd yn cael ei adeiladu. O ran arian ychwanegol nodwyd fod gan Gymdeithasau Tai fynediad i amrywiaeth o gronfeydd ychwanegol ond fod arian ychwanegol yn gallu effeithio ar gyfradd o arian fydd ar gael o grant Tai Cymdeithasol.

- Mynegwyd fod nifer o safleoedd sydd o eiddo'r Cyngor ddim yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd a holwyd os yw'r lleoliadau yma yn cael eu hystyried fel lleoliadau i gartrefi.
  - Eglurwyd fod pob math o leoliadau yn cael eu hystyried a bod yr adran edrych ar diroedd ac adeiladau sydd berchen y Cyngor. Amlygwyd ar rai achlysuron fod defnyddio'r lleoliadau yn gostus ac yn anodd eu trosi i fod yn gartrefi yn rhwydd. Amlygwyd fod angen i eiddo fod o safon benodol ac o fewn rheoliadau penodol. Gofynnwyd i unigolion a oedd a lleoliadau posib i gysylltu gyda'r adran er mwyn eu hasesu, er mwyn cadw defnydd o adeiladau yn lleol.

- Holwyd beth yw'r diffiniad o Dŷ Gwag, ac os yn derbyn grant tŷ gwag i'w ail wneud os oes rheoliadau fod rhaid i unigolyn fyw yn y tŷ yn dilyn derbyn y grant.
  - Eglurwyd fod y diffiniad yn un penodol sydd i'w wneud a statws treth Cyngor y tŷ. Nodwyd disgwyliad i unigolion ddefnyddio'r tŷ fel cartref yn dilyn hyn ac nid fel ail gartref.

- Amlygwyd fod niferoedd oedd mewn llety argyfwng dros y Nadolig yn hynod uchel a gofynnwyd pa fath o lety sy’n cael ei gynnig gan y Cyngor, os yw’n gost effeithiol a pa mor gyflym mae unigolion yn symud ymlaen o’r lleoliadau yma.
    - Eglurwyd fod y llety argyfwng yn cynnwys amrywiaeth o lety ond fod mwyafrif yn westai a lleoliadau gwely a brecwast. Pwysleisiwyd fod y lleoliadau yn gallu bod yn anaddas o ganlyniad i stoc eiddo sydd ar gael. Mynegwyd fod yr adran yn blaenoriaethu i greu llety dros dro addas, ac amlygwyd yr angen i weithio yn nes gyda’r sector breifat yn ogystal. Mynegwyd ar gyfartaledd fod unigolion yn symud allan o lety argyfwng wedi 200 diwrnod.

- Holwyd faint o gyngor sydd yn cael ei gynnig i bobl sy’n prynu am y tro cyntaf er mwyn iddynt allu bod yn llwyddiannus wrth ymgeisio yn erbyn pobl eraill.
    - Eglurwyd fod grantiau ar gael i gynorthwyo prynwyr tro cyntaf ac eu bod wedi bod yn cael ei hyrwyddo gan arwerthwyr tai lleol. Efallai fod angen edrych ar hyn i sicrhau ei fod yn cael ei wneud ac efallai yn ceisio canolbwyntio ar leoliadau penodol.

  - Cynigwyd i wneud cais i'r Fforwm Craffu am Ymchwiliad Craffu I'r Polisi Gosod Tai Cymdeithasol er mwyn gweld pa mor wydn yw’r drefn ac i fynd o dan groen y polisi

**PENDERFYNWYD**

1) Derbyn yr adroddiad gan nodi’r sylwadau
2) Gwneud cais I'r Fforwm Craffu am Ymchwiliad Craffu I'r Polisi Gosod Tai Cymdeithasol er mwyn gweld pa mor wydn yw’r drefn ac i fynd o dan groen y polisi

## 6. GWAITH ATALIOL A GOMISIYNIR I’R TRYDYDD SECTOR

Cyflwynwyd yr adroddiad gan ddiolch yn fawr iawn am y cyfle i drafod cyfraniad y trydydd sector. Nodwyd fod eu gwerth yn amhrisiadwy ac ei bod yn holl bwysig i fod yn craffu eu gwaith ynghyd a chraffu mesur gwerth y sector yn ogystal. Cydnabuwyd dyled enfawr i waith y trydydd sector, yn enwedig gyda’r sector gyhoeddus yn crebachu am eu bod yn ymateb yn gyflym a hyblyg. Pwysleisiwyd yr angen i sicrhau fod y Cyngor yn cael y gwerth mwyaf o arian i sicrhau y gwasanaeth mwyaf effeithiol.

Diolchwyd i aelodau’r pwyllgor am yr ymholiad i edrych i mewn i’r maes hwn. Nodwyd ei bod wedi bod yn gyfle i godi ymwybyddiaeth o waith sydd yn digwydd. Ategwyd y diolch i’r maes yn ogystal gan bwysleisio eu bod yn cael eu cyfri fel partner hynod bwysig i’r Cyngor.

Mynegwyd fod y cais gan y pwyllgor wedi bod yn amserol tu hwnt ac wedi galluogi’r adrannau i ail edrych ar eu contractau. Pwysleisiwyd fod yr adroddiad hwn yn edrych ar fudiadau yn y maes gofal yn unig ac ar fudiadau sydd yn derbyn cyfraniadau ar gyfer costau rhedeg yn unig ac nid ar gyfer comisiynu gwasanaethau penodol. Tynnwyd sylw fod yr adroddiad yn amlygu materion sydd wedi codi dros y blynyddoedd diwethaf ynghyd â materion hanesyddol sydd am fod yn heriol i ddygymod a hwy ac edrych ar sut i adeiladu ar y gwaith yma. Nodwyd fod cyfarfod wedi ei gynnal bythefnos yn ôl ble trafodwyd y sefyllfa ariannol a chyhoeddwyd y bydd arian ar gyfer 2024/25 yr un peth a dderbyniwyd yn 2023/24 ynghyd ac amlygu’r amserlen i drafod y ffordd ymlaen ac i gomisiynu i’r dyfodol.

*Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-*

- Amlygwyd fod yr adroddiad yn dangos anghysondeb o ran lefel y manylder a dderbynnir a'r wybodaeth perfformiad y gofynnir amdano gan y trydydd sector, a gofynnwyd a oes gwybodaeth bellach wedi ei dderbyn.
    - Nodwyd yn syml fod angen i fudiadau adrodd ar beth maent yn ei wneud gyda'r arian a dderbynnir. Cytunwyd bod anghysondeb ar draws y sector, a bod angen cysoni'r wybodaeth sydd yn ei dderbyn.

- Holwyd beth yw'r trefniadau o ran monitro ac os yw'r Cyngor yn cael gwerth am arian.
    - Diolchwyd i'r Pwyllgor Craffu am ddod a'r mater i sylw'r adrannau, nodwyd fod llawer o wybodaeth yn dod yn ôl i'r Cyngor ond fod y drafodaeth wedi ysgogi'r ddwy adran i gael system galed i fonitro ac i gysoni ar draws y sector.

- Amlygwyd mai dim ond rhai o'r mudiadau trydydd sector sydd i'w gweld yn yr adroddiad a bod rhai mudiadau i'w gweld ar goll.
    - Eglurwyd fod yr adroddiad yn canolbwyntio at waith ataliol yn yr adran Oedolion ac yr Adran Blant. Amlygwyd fod adrannau eraill megis yr adran Tai ac Eiddo yn defnyddio mudiadau trydydd sector i redeg gwasanaethau ataliol, ac efallai fod angen cael mewnbwn adrannau eraill sydd yn gorgyffwrdd. Pwysleisiwyd fod y mudiadau sydd yn cael eu trafod yma ar gyfer y grant craidd ac nid ar gyfer prynu gwasanaethau ganddynt. Amlygwyd fod nifer o fudiadau ychwanegol i'r hyn sydd yn yr adroddiad hwn, ond fod yr adroddiad yn amlygu sut mae adrannau yn comisiynu gwaith gan y trydydd sector ac wedi amlygu fod mwy o waith angen ei wneud.

- Holwyd os yw'r disgrifiad o waith yr elusen Gorwel yn ddisgrifiad priodol ac yn disgrifio'r gwaith maent yn ei wneud.
    - Nodwyd bydd yr adran yn edrych ar y mater i sicrhau ei fod yn gywir.

- Nodwyd balchder o'r gwaith sydd wedi ei wneud a bod y defnydd o gytundeb lefel gwasanaeth yn llawer mwy proffesiynol na beth oedd yn cael ei gynnig flynyddoedd yn ôl.

- Amlygwyd pryder am gytundebau angen eu harwyddo, gan fod cytundebau yn rhoi sicrwydd i'r mudiadau am ddyfalbarhad cynlluniau yn ogystal ag arian 2024/25.
    - Eglurwyd fod yr adrannau yn gobeithio y bydd y gwaith hwn yn golygu y bydd modd cynnig cytundebau tymor hir a fydd yn galluogi'r mudiadau i gynllunio ymlaen. O ran yr elfen ariannol eglurwyd fod yr arian yn aros yr un fath ac nad oedd chwyddiant yn cael ei ystyried am 2024/25.

- Holwyd pa elfennau o wasanaethau statudol sy'n cael eu darparu gan sefydliadau sy'n cynnig gwasanaeth ataliol ac os oes arian yn cael ei dorri a oes peryg i ddyletswyddau statudol beidio cael eu cyflawni.
    - Nodwyd fod elfennau o waith yn cael eu comisiynu megis cynnal gofalwyr. Mynegwyd fod angen efallai trafodaeth am yr elfennau statudol ac i gysidro hynny ar wahân. O ran yr elfennau adran Plant nodwyd fod dau faes penodol - fel ymyrraeth gynnar ac atal sydd yn rhan o raglen Teuluoedd yn gyntaf, a bod y gwaith hwn yn cael ei ariannu drwy grantiau penodol.

- Holwyd os oes bwriad i gomisiynu gwaith ataliol drwy gystadleuaeth agored i'r dyfodol.

- Eglurwyd ei fod yn opsiwn i'r adran Oedolion ei gysidro i rai gwasanaethau ond fod angen sicrhau fod gwasanaeth yn debyg ar draws yr holl sir. Nodwyd ei bod yn gystadleuaeth agored yn yr adran Blant ac y bydd cylch ail-dendro yn 2025.

- Wrth edrych ar yr adran Blant, holwyd os oes bwriad i gomisiynu Barnardos i wneud gwaith Tîm Cefnogi Teulu yn Arfon a Dwyfor a holwyd pam oedd y drefn yn wahanol ym Meirionydd.
  - Mynegwyd fod hyn wedi digwydd o ganlyniad i ddiffyg capasiti mewnol yn Meirionydd ac o ganlyniad penderfynwyd mynd i dendr.

**PENDERFYNWYD**

1) Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau gan groesawu y syniad o drefn trawsadrannol i fonitro grantiau.
2) I dderbyn adroddiad cynnydd ar y maes gan yr adrannau yn 2025.

## 7. PROTOCOL DISGYN / CWYMPO

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod yr eitem wedi codi yn dilyn cwestiwn a godwyd gan y cyn-gadeirydd peth amser yn ôl, sef be ddylai pobl ei wneud os yw unigolion yn disgyn yn eu cymunedau. Nid oedd yn gwestiwn ble roedd modd ymateb iddo yn syth, ond wedi peth drafod gydag Ymddiriedolaeth Ambiwlans Cymru a chyd-weithwyr ym Mwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr amlygwyd nad oes dim protocol cenedlaethol 'na rhanbarthol i'r mater hwn. Eglurwyd fod protocol "I Stumble" yn cael ei ddefnyddio gan yr ymddiriedolaeth, y Bwrdd Iechyd a rhai awdurdodau lleol eraill ond fod y protocol hwn yn edrych ar sut i gynorthwyo unigolion os yn disgyn a sut i ddelio ar ôl disgyn. Amlygwyd nad oedd y protocol yn delio gyda'r cwestiwn sef sut i ymateb os yw unigion yn disgyn ac ambiwlans ddim ar gael am 8-10 awr, a pa gyngor y gellir eu rhoi i ofalwr.

Mynegwyd fod gwaith wedi ei wneud i gyfieithu ac i ychwanegu at system "I Stumble", ac yn benodol at rhan "Amser Aros Hir Iawn?". Pwysleisiwyd fod y sylwadau yn rhai arwynebol ond nad oes modd mynd i lawer o fanylder gan ei bod yn sefyllfa anodd iawn ymateb iddi gan fod pob achos yn wahanol. Eglurwyd fod Cyfarwyddwr Rhanbarthol Therapyddion Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr yn hapus i roi bathodyn y Bwrdd Iechyd arno. Ychwanegwyd y bydd ymgynghoriad ar y ddogfen yn cael ei gynnal er mwyn gweld os oes ffordd well o rhannu'r wybodaeth. Yn dilyn hyn, nodwyd y bydd hyfforddiant yn cael ei gynnal i ofalwyr mewnol ac i ddarparwyr allanol.

Yn ychwanegol i hyn, nodwyd fod swyddogion o fewn Ymddiriedolaeth Ambiwlans Cymru yn eiddgar iawn i ddechrau peilot yng Ngwynedd i weld os oes modd lleoli offer i godi unigolion sydd wedi syrthio mewn lleoliadau addas o fewn cymunedau, ac i hyfforddi gwirfoddolwyr lleol ar sut i'w defnyddio. Nodwyd eu bod yn disgwyl i gael cynllun penodol o ran lleoliadau a.y.b., ac er yn wahanol i'r protocol eglurwyd ei fod wedi datblygu o ganlyniad i'r sgyrsiau sydd wedi codi.

*Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-*

- Diolchwyd am yr adroddiad gan eu llongyfarch ar greu adroddiad clir, i feddwl na oedd protocol mewn lle cyn hyn. Amlygwyd efallai fod angen i'r elfen 'Amser Aros Hir Iawn?' efallai mewn lliw arall er mwyn tynnu sylw ato.

- Holwyd os oes amserlen ar gyfer cynnal hyfforddiant ar y protocol ar y cyd gyda'r Bwrdd Iechyd, neu os oes amserlen ar gyfer y cynllun peilot.

- Nodwyd o ran yr hyfforddiant nad oes amserlen bendant ond na ragwelir rheswm dros oedi ac y bydd gobeithio modd i'w cynnal yn ystod y gwanwyn yn barod at dymor yr haf a'r hydref.
- Ychwanegodd o ran y cynllun peilot nad oes dyddiad ond y bydd y Cyfarwyddwr Corfforaethol yn parhau i'w holi er mwyn cael amserlen mewn lle.

- Holwyd os oes modd creu taflen i'r cyhoedd wedi iddo gael ei dderbyn gan ei bod yn holl bwysig i'r wybodaeth gael ei rannu ymhellach gan y bydd yn ddefnyddiol i bawb.
  - Mynegwyd nad oedd dim bwriad i wneud hyn ond nad oedd yn gweld unrhyw broblem i wneud hynny, gan na fuasai yn costio llawer i'w greu ac y byddai'n werthfawr iawn. Amlygwyd yr angen i feddwl at sut i ddosbarthu'r wybodaeth i'r cyhoedd.

- Nodwyd fod y cyn-gadeirydd y Cyng. Eryl Jones Williams, gan ei fod wedi nodi ei ymddiheuriad yn diolch yn fawr iawn am yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD**

a) Derbyn yr adroddiad a gofyn i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol i ystyried dosbarthu'r wybodaeth i'r cyhoedd os yn bosib.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30am a daeth i ben am 2pm.

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Adroddiad Blynyddol ar y Weithdrefn Cwynion, Ymholiadau a Diolchiadau'r Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd ac Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant ar gyfer 2022-23** |
| **PWRPAS** | **Paratoi Adroddiad Blynyddol ar weithrediad y Weithdrefn Sylwadau a Chwynion a'i gyflwyno i'r Cabinet a'r Pwyllgor Craffu er mwyn craffu a monitro'r trefniadau ar gyfer delio'n effeithiol â chwynion a dderbyniwyd gan ddefnyddwyr gwasanaeth a'u cynrychiolwyr** |
| **AWDUR** | **Marian Parry Hughes – Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd**<br><br>**Aled Davies – Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant** |
| **AELODAU CABINET** | **Cynghorydd Dilwyn Morgan**<br>**Cynghorydd Elin Walker Jones** |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD CABINET CYNGOR GWYNEDD** | **11/04/2024** |


| **1.** | **CYFLWYNIAD** |
|---|---|
| 1.1 | Yn unol â Rheoliadau Gweithdrefn Gwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014 a'r Rheoliadau Gweithdrefn Sylwadau (Cymru) 2014 ddaeth i rym ar 1af o Awst, 2014, mae'n ofynnol i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol gynhyrchu adroddiad blynyddol ar y modd ymchwilir ac ymdrinnir â chwynion o fewn yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd a'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant. Caiff yr adroddiad ei gynhyrchu gan Swyddogion Gofal Cwsmer y ddwy Adran, ar ran Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol. |
| 1.2 | Diben yr adroddiad hwn yw darparu gwybodaeth ar niferoedd y cwynion a dderbyniwyd gan yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd a'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn ystod y flwyddyn, a'r rhesymau drostynt ynghyd â datrysiadau. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys crynodeb o'r gwersi a ddysgwyd a'r camau a gymerwyd o ran y cwynion a dderbyniwyd. Ceir hefyd fanylion am y niferoedd o geisiadau mynediad at wybodaeth gwybodaeth a cheisiadau rhyddid gwybodaeth a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod hwn. |
| **2.** | **CYD-DESTUN** |
| 2.1 | Mae'n ofynnol i'r ddwy Adran roi Gweithdrefn Sylwadau a Chwynion statudol ar waith, yn unol â Rheoliadau Gweithdrefn Gwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014 a Rheoliadau Gweithdrefn Sylwadau (Cymru) 2014. Mae ymrwymiad i lunio Adroddiad Blynyddol ar weithrediad y Weithdrefn Sylwadau a Chwynion a'i gyflwyno i Bwyllgor Craffu perthnasol y Cyngor er mwyn iddo fedru |

| | |
|---|---|
| | craffu a monitro'r trefniadau ar gyfer delio'n effeithiol â chwynion a dderbyniwyd gan ddefnyddwyr gwasanaeth a'u cynrychiolwyr. Mae'n bwysig bod cofnod yn cael ei gadw o sylwadau a chwynion er mwyn i'r Adran allu dysgu gwersi oddi wrthynt, a hynny fel rhan o'r broses o wella'r gwasanaethau a ddarperir. Mae'n ymarfer da i rannu'r adroddiad cwynion blynyddol ag aelodau'r Cyngor er mwyn sicrhau tryloywder. Mae ystadegau ar gyfer cwynion o dan Weithdrefn Sylwadau a Chwynion yr Adran yn cael eu hadrodd ar wahân i'r rhai ar gyfer cwynion a dderbyniodd ymateb o dan Bolisi Pryderon a Chwynion corfforaethol y Cyngor. Mae hyn yn galluogi'r Pwyllgor Craffu a'r Pwyllgor Gwaith i graffu'n rheolaidd ar ystadegau am gwynion. |
| 2.2 | Mae Swyddog Gofal Cwsmer yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd wedi ei lleoli o dan reolaeth yr Uwch Reolwr Diogelu ac Ansawdd yn yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd.<br><br>Lleolwyd Swyddog Gofal Cwsmer yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant o dan reolaeth Uwch Reolwr Diogelu a Sicrwydd Ansawdd yr Adran.<br><br>Er i'r Swyddogion gael eu lleoli oddi fewn i'w Adrannau, mae'n bwysig nodi fod y Swyddogion yn annibynnol er mwyn sicrhau yr ymdrinnir â chwynion yn unol â Rheoliadau Gweithdrefn Cwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014. Mae'r Drefn Gwynion Gwasanaethau Cymdeithasol yn benodol yn ymwneud ag unigolion sydd yn derbyn gwasanaeth gan un o'r ddwy Adran, neu sydd â hawl i gynrychioli'r defnyddiwr gwasanaeth.<br><br>Mae'r Swyddogion Gofal Cwsmer yn gyfrifol am:<br>• Cydlynu trefniadau'r gwasanaeth er mwyn cydymffurfio â'r Weithdrefn Sylwadau a Chwynion;<br>• Cofnodi cwynion a sylwadau cadarnhaol a negyddol gan ddefnyddwyr gwasanaeth a'u cynrychiolwyr;<br>• Monitro'r ymateb i gwynion o fewn yr amserlenni a bennir yn y rheoliadau ar gyfer ymdrin â chwynion o dan Gam 1 y weithdrefn;<br>• Cydlynu ymchwiliadau gan ymchwilwyr annibynnol i gwynion ffurfiol o dan Gam 2 y weithdrefn;<br>• Sicrhau yr anfonir ymateb ysgrifenedig ffurfiol a chopi o adroddiad yr ymchwiliad annibynnol (neu grynodeb o'r canlyniad) at yr achwynydd o fewn 25 diwrnod gwaith o dan Gam 2 y weithdrefn, a hysbysu'r achwynydd os rhagwelir y bydd oedi;<br>• Cydlynu ymatebion gan y Gwasanaethau Cymdeithasol i ymholiadau gan Swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ynghylch cwynion am faterion yn ymwneud â'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant;<br>• Monitro Cynlluniau Gweithredu i sicrhau y dysgir gwersi o gwynion er mwyn gwella ansawdd gwasanaethau;<br>• Datblygu'r Weithdrefn Sylwadau a Chwynion mewnol;<br>• Sicrhau bod gwybodaeth ar gael er mwyn hwyluso mynediad i'r Weithdrefn Sylwadau a Chwynion i ddefnyddwyr gwasanaeth a'u cynrychiolwyr. |

| | |
|---|---|
| | • Darparu hyfforddiant a chefnogaeth i hyrwyddo dealltwriaeth o'r Weithdrefn Sylwadau a Chwynion ymysg staff Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant.<br>• Mae'r Swyddog Gofal Cwsmer ar gyfer Oedolion yn aelod o Banel Mannau Parcio i'r Anabl, sydd yn gyfrifol am gydlynu'r broses o asesu ceisiadau gan y cyhoedd am fannau parcio penodol i drigolion anabl tu allan i'w eiddo. |
| **3.** | **Hwylustod y Drefn Cwyno** |
| 3.1 | Pan mae person yn cysylltu â'r Swyddogion Gofal Cwsmer mae'n ymwneud ag anfodlonrwydd â gwasanaeth yr Adrannau ac mae'r dewis i wneud cwyn yn ddewis olaf gan amlaf ganddynt. Mae'r Swyddogion Gofal Cwsmer yn canolbwyntio ar sicrhau hwylustod i'r Drefn Gwyno fel bod pobl yn ymwybodol o'u hawl i gael gwrandawiad ac ymchwiliad llawn o'u cwyn. |
| 3.2 | I'r diben hwn, caiff gwybodaeth ynglŷn â'r drefn gwyno gryn gyhoeddusrwydd ac mae ar gael mewn amrywiaeth o fformatau e.e. taflenni, ar-lein a fersiwn "hawdd i'w ddarllen". Mae'r holl wybodaeth ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg fel bod yr achwynydd yn medru dewis yr iaith sydd orau ganddo ef/ganddi hi. Mae trefniadau amgen megis Braille neu ieithoedd eraill ar gael ar ofyn. Mae eiriolaeth neu gefnogaeth arall ar gael i'r achwynydd yn ei h/iaith ddethol er mwyn cynorthwyo wrth i'r Drefn Gwynion fynd rhagddi. Mae taflenni gwybodaeth yn cael eu diwygio a'u diweddaru'n barhaus. |
| 3.3 | Yn unol â threfniadau'r drefn gwynion, mewn rhai achlysuron nid oes modd derbyn cwyn ar y pryd hynny. Os oes ymchwiliad Heddlu cyfredol, ymchwiliad o dan y drefn Diogelu, ymchwiliad Amddiffyn Plant cyfredol, neu mae'r mater yn derbyn sylw gerbron y Llys, ni allwn dderbyn y gwyn. Gall derbyn cwyn amharu ar unrhyw ymchwiliad cyfredol sydd yn cymryd lle ar y pryd. Mi fyddwn mewn achos fel hyn yn cynghori'r achwynydd o'r rhesymau, unwaith mae'r ymchwiliad wedi dod i ben yna mi allwn ddechrau'r broses gwynion. |
| **4.** | **Materion a gofnodwyd fel Ymholiadau** |
| 4.1 | Y nod yw ymateb i bob cwyn gyda thegwch, didueddrwydd a pharch fel bod yr unigolyn yn hyderus fod ei gwyn yn derbyn ymdriniaeth broffesiynol a hynny mewn modd positif yn hytrach na negyddol. Yn aml, pan mae'r unigolyn yn dewis peidio â dilyn y Drefn Gwyno, fe ymdrinnir â'r mater fel ymholiad neu gŵyn anffurfiol. Enghraifft arall o hyn fyddai llythyr gan Aelod Seneddol neu Gynghorydd lleol sy'n dymuno mynegi anfodlonrwydd neu sydd angen ateb i gwestiwn penodol. |
| 4.2 | Trwy ymateb yn bositif yn ystod y camau cynnar hyn, gall rhai materion gael eu datrys yn effeithiol heb fod angen dilyn y Drefn Gwyno am fod dewis i ymdrin ag unrhyw gamddealltwriaeth neu ymateb i ymholiadau. Heb os, dyma'r canlyniad gorau i bawb. Gweler Tabl 1(a) ac 1(b) isod am ddadansoddiad o darddiad pob ymholiad a'r uned/gwasanaeth sy'n gyfrifol am ymateb i'r ymholiad arbennig hwnnw. |


| **TABL 1(a) - Ymholiadau a Chwynion Anffurfiol a dderbyniwyd gan yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd** | | |
|---|---|---|
| | **2021/22** | **2022/23** |
| *Cyfreithwyr* | | 1 |
| *Ymholiad Ombwdsmon* | | 2 |
| *Aelodau lleol* | | 1 |
| *Aelodau Seneddol neu Aelodau Cynulliad* | 11 | 7 |
| *Defnyddwyr Gwasanaeth* | | |
| *Perthynas* | | 18 |
| *Y Cyhoedd* | | |
| *Gofalwr Maeth* | | |
| *Asiant Arall e.e. gwasanaeth eiriolwr* | | |
| **Cyfanswm** | 11 | 29 |


| **TABL 1(b) - Ymholiadau a Chwynion Anffurfiol a dderbyniwyd gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant** | | |
|---|---|---|
| | **2021/22** | **2022/23** |
| *Cyfreithwyr* | 1 | |
| *Ymholiad Ombwdsmon* | | |
| *Aelodau lleol* | 5 | 4 |
| *Aelodau Seneddol neu Aelodau Cynulliad* | 25 | 25 |
| *Defnyddwyr Gwasanaeth* | 1 | 2 |
| *Perthynas* | 12 | 9 |
| *Y Cyhoedd* | 10 | 9 |
| *Materion Mannau Parcio Anabl* | 1 | |
| *Siroedd eraill* | 1 | |
| *Yr Heddlu* | 2 | |
| *Comisiynydd Pobl Hyn* | 1 | |
| *Cwmnïau Darparu Gofal Allanol* | | 1 |
| *Staff Cyngor Gwynedd (Adran arall)* | 1 | 1 |
| *Staff Bwrdd Iechyd* | | 1 |
| **Cyfanswm** | 60 | 52 |



| **5.** | **Trefn Gwyno Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol – Datrysiad Lleol** |
|---|---|
| 5.1 | Gwneir pob ymdrech i ddatrys y gŵyn fel bod yr achwynydd a'r Adran yn fodlon. Yn amlwg, datrysiad lleol yw'r canlyniad gorau i bawb a gellir cyflawni hyn trwy fuddsoddi amser ac ymdrech yn gynnar. Os yw'r achwynydd, fodd bynnag, yn penderfynu gwneud cwyn ffurfiol, y drefn arferol yw cysylltu dros y ffôn, trwy ddefnyddio e-byst, neu wyneb yn wyneb â'r achwynwyr neu gynrychiolydd er mwyn ceisio datrys y mater. Dros y blynyddoedd, mae'r Swyddogion Gofal Cwsmer wedi llwyddo i sefydlu cysylltiadau gweithio clos gyda'r timau, rheolwyr a'r adain gyfreithiol fel modd o drafod a datrys materion a chaiff hyn ei adlewyrchu yn y nifer fechan o gwynion sy'n cyrraedd Cam 2 yn y Drefn Cwynion. |
| 5.2 | Weithiau, mae modd datrys pryder erbyn diwedd y diwrnod gwaith canlynol, ac yn yr achos hwnnw, nid oes angen ei gofnodi fel cwyn dan Gam 1 o'r Drefn Cwynion a byddant yn cael eu cofnodi fel Ymholiadau a Chwynion Anffurfiol. Yn ogystal, efallai y bydd y defnyddiwr gwasanaeth yn datgan nad ydynt yn dymuno gwneud cwyn swyddogol o dan Gam 1 neu Gam 2 yr un Drefn.<br><br>Ar adegau eraill, mae'r pryderon a dderbynnir yn ymwneud â materion hanesyddol ac, o'r herwydd, nid ydynt yn gymwys ar gyfer ymchwiliad o dan y Drefn Cwynion, er y bydd rhyw fath o ymateb yn cael ei roi pan yn briodol. Yn achos rhai pryderon, nid yw'n bosib ymateb iddynt o dan y Drefn Cwynion pe byddai gwneud hynny'n niweidio achosion cyfreithiol neu ymchwiliadau amddiffyn oedolion sy'n mynd rhagddynt. Hysbysir yr achwynydd fod hawl ganddynt i ailgyflwyno'r cwyn ar ôl i'r achos cyfredol ddod i ben os ydynt yn dymuno. |
| 5.3 | Mae cwyn ffurfiol yn cael ei hadnabod fel Cwyn Cam 1 o dan drefniadau cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol. Yn dilyn derbyn y gwyn mae yn cael ei anfon ymlaen i sylw'r Uwch Reolwr perthnasol. Mi fyddai'r Uwch Reolwr yn cysylltu gyda'r achwynydd dros y ffon i drafod eu cwyn a cheisio dod i ddatrysiad. Yn dilyn y sgwrs hon mae'r Uwch Reolwr yn anfon llythyr yn cadarnhau'r sgwrs ymlaen at yr achwynydd. Os nad yw'r achwynydd eisiau sgwrs ffôn yna mae posib anfon ymateb ysgrifenedig yn unig. Yn unol â'r canllawiau mae gan yr Adran 10 diwrnod gwaith i gysylltu gyda'r achwynydd i drafod eu cwyn, ac yna 5 diwrnod gwaith i gadarnhau'r sgwrs drwy lythyr. |
| 5.4 | Os yw'r achwynydd yn anfodlon gyda'r ymateb o dan Gam 1 o'r broses gwynion yna mae posib iddynt ofyn i'r mater gael ei uchafu i Gam 2 o'r trefniadau Cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol. Yn unol â'r canllawiau mae gan yr Adran perthnasol 25 diwrnod gwaith i gwblhau ymchwiliad Cam 2. Mewn achosion eithriadol mae posib ehangu'r amserlen os oes angen. |
| 5.5 | Fe weler enghreifftiau o'r cwynion a dderbyniwyd gan y ddwy Adran yn Atodiad 1(a) ac 1(b). |

| **TABL 2 Trefn Gwyno Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol** | | |
|---|---|---|
| ***ADRAN PLANT A THEULUOEDD*** | ***2021/22*** | ***2022/23*** |
| *Cam 1* | 26 | 16 |
| *Cam 2* | 3 | 1 |
| *Ombwdsmon* | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **29** | **17** |
| | | |
| ***ADRAN OEDOLION, IECHYD A LLESIANT*** | ***2021/22*** | ***2022/23*** |
| *Cam 1* | **29** | **22** |
| *Cam 2* | **1** | **2** |
| *Trefn Gwyno Corfforaethol* | **3** | **0** |
| *Ombwdsmon* | **0** | **0** |
| **Cyfanswm** | **33** | **24** |







| | |
|---|---|
| **6.** | **Cam 2 - Trefn Gwyno Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol - Ymchwiliad Ffurfiol** |
| 6.1 | Pe byddai achwynydd eisiau uchafu eu cwyn i Gam 2, byddai'n rhaid iddynt ddarparu cofnod llawn o'u cwyn ynghyd ag unrhyw ddeilliannau cyraeddadwy; dyma fydd yn ffurfio'r sylfaen ar gyfer beth rydym yn ei alw'n Ymchwiliad Cam 2. Ar gyfer y ddwy Adran, mae'r ymchwiliad yn cael ei gynnal gan berson annibynnol i'r Cyngor sydd yn cael eu hadnabod fel Ymchwilydd Annibynnol. Yn ogystal, mewn achos o gwyn yn ymwneud a'r Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd, mae angen apwyntio Person Annibynnol. Eu rôl ydy cyfarfod gyda'r achwynydd, cyfweld staff perthnasol a darllen y ffeil gofal cymdeithasol. Yn dilyn hyn maent yn creu adroddiad o'u darganfyddiadau ynghyd â unrhyw argymhellion i'r Adrannau perthnasol. Bydd yr Adrannau yn paratoi ymateb i'r argymhellion hyn i'w rannu gyda'r achwynydd.<br><br>Mae'r ddwy Adran yn gyfrifol am ariannu ymchwiliadau ei hunain trwy gomisiynu ymchwilydd annibynnol, a'r person annibynnol pan yn berthnasol, fel unigolion hunangyflogedig. Mae costau ymchwiliad yn amrywio yn nol cymhlethdod y mater a'r amser sydd ei angen i gasglu'r dystiolaeth i greu'r adroddiad.<br><br>Os bydd yr achwynydd yn parhau i fod yn anhapus ar ôl dilyn y broses Gam 2, yna mae modd iddynt ofyn i'r Ombwdsmon ymchwilio ymhellach.<br><br>Trwy ddilyn yr egwyddor o ganolbwyntio ar ddatrysiad buan a lleol yn llwyddiannus, ac ymdrin â materion yn gyflym ac effeithiol, mae'r angen i symud cwynion ymlaen i Gam 2, yn anghyffredin yng Ngwynedd. Deallir fod Gwynedd yn ennill y blaen ar hyn ledled gogledd Cymru. Mae'n dystiolaeth bendant o ymroddiad y Swyddogion Gofal Cwsmer, trwy dderbyn cydweithrediad parod y staff perthnasol ymhob achos unigol, i ddatrys pob cwyn mewn modd effeithiol ac amserol. |
| 6.2 | Yn ystod 2022/23, derbyniwyd yr Adran Plant a Theuluoedd un cais i uchafu cwyn i Gam 2 o'r Drefn Gwynion Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol. Bu i'r Ymchwilydd Annibynnol yn yr achos hwn dderbyn y gwyn yn rhannol.<br><br>Symudodd dau gwyn i'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant ymlaen o Gam 1 i Gam 2 yn ystod 2022/23. Nid oedd yr Ymchwilydd Annibynnol wedi adnabod unrhyw argymhellion am welliannau i waith yr Adran o ganlyniad i'w ymchwiliad i'r materion dan sylw. |
| **7.** | **Ymchwiliadau i gwynion a dderbyniwyd gan Ombwdsmon y Gwasanaethau Cyhoeddus** |
| 7.1 | Os nad yw cwyn yn cael ei datrys ar ddiwedd ymchwiliad o dan Gam 2 o'r Drefn Cwynion, mae gan yr achwynydd hawl i gyfeirio'r achos i Ombwdsmon y Gwasanaethau Cyhoeddus dros Gymru, neu i Gomisiynydd yr Iaith Gymraeg neu'r Comisiynydd Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, yn dibynnu ar natur y gŵyn. |
| 7.2 | Yn arferol, os na ymdriniwyd â'r gŵyn o dan Gam 1 o'r Drefn Gwynion Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol eisoes, caiff y gŵyn ei chyfeirio yn ôl i'r Adran gan yr |

| | |
|---|---|
| | Ombwdsmon i geisio datrys y gŵyn yn lleol. Os yw'r unigolyn yn parhau yn anfodlon wedi hynny, mae ganddynt hawl i ddwysáu eu cwyn i Gam 2 o'r Drefn Gwynion Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol neu fynd yn ôl at Ombwdsmon y Gwasanaethau Cyhoeddus dros Gymru, Comisiynydd yr Iaith Gymraeg, neu Gomisiynydd Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (yn dibynnu ar natur y gŵyn) i gynnal ymchwiliad. |
| 7.2 | Mae pob mater hanesyddol a oedd yn agored o dan yr Ombwdsmon bellach wedi ei ddatrys ac wedi ei gau i'r Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd. Ni dderbyniwyd unrhyw ymchwiliad newydd gan swyddfa'r Ombwdsman yn 2022/23 gan yr un o'r ddwy Adran yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn. |
| **8.** | **Cwynion am wasanaethau a ddarparwyd ar y cyd efo'r Bwrdd Iechyd** |
| 8.1 | Mae protocol cwynion ar y cyd yn bodoli ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a'r Chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru. Ni chyflwynwyd unrhyw ymatebion ar y cyd i gwynion o dan y protocol hwn yn ystod 2022/23. |
| **9.** | **Ymlyniad at Amserlen Ymateb y Drefn Gwyno Statudol** |
| 9.1 | Mae gan yr Awdurdod Lleol ddyletswydd i ddarparu gwybodaeth ar y modd y mae'n archwilio ac ymdrin â chwynion o fewn yr amserlen a nodwyd yn y Canllawiau a'r Rheoliadau. Unwaith y byddwn wedi derbyn cwyn, bydd y rheolwr perthnasol neu uwch ymarferydd yn cynnig cysylltu gyda'r achwynydd i gynnig cyfarfod/galwad ffôn o fewn 10 diwrnod gwaith er mwyn trafod y cwyn ac i geisio ei ddatrys. Byddwn wedyn yn ysgrifennu at yr achwynydd o fewn 5 diwrnod gwaith i'r drafodaeth i gadarnhau telerau datrysiad y cwyn. |
| 9.2 | Llwyddodd yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant i ymateb i 73% o gwynion Cam 1 o fewn yr amserlen yma yn ystod 2022/23. Llwyddodd yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd i ymateb i 82% o gwynion o fewn yr un amserlen yn ystod 2022/23. |
| 9.3 | Mae'r rhesymau dros unrhyw ymatebion hwyr yn bennaf yn gysylltiedig â chymhlethdod y cwyn dan sylw, a'r gwaith ymchwil sydd angen ei wneud i allu darparu ymateb llawn. Mae absenoldebau oherwydd salwch, gwyliau blynyddol, ayyb, y Swyddog Gofal Cwsmer a'r staff sydd yn gysylltiedig â'r cwyn hefyd yn cael effaith arwyddocaol ar allu/methu cadw at yr amserlen ymateb.<br><br>Mae'r amserlen ar gyfer darparu ymateb ysgrifenedig, sy'n cadarnhau deilliant y drafodaeth, yn dynn iawn, sef 5 diwrnod gwaith. Serch hynny mae'r rhan fwyaf o achwynwyr yn derbyn ymateb o fewn yr amserlen neu wedi cytuno i ymestyn yr amserlen. |

| Trefn Gwyno Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol – Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd - Perfformiad Ymateb 2022/23 | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cam 1** (cyfanswm – 16) | | | | | | |
| *Cwynion a dderbyniwyd cyn pen 12 mis i'r digwyddiad* | *Cwynion a dderbyniwyd 12 mis ar ôl y digwyddiad* | *Wedi eu cydnabod o fewn 2 ddiwrnod* | *Trafodaeth i gael ei ddatrys cyn pen 10 diwrnod* | *Penderfyniad wedi ei gyhoeddi cyn pen 5 diwrnod* | *Amser ymateb wedi'i ymestyn* | *Cyfartaledd dyddiau wedi eu hymestyn* |
| 14 | 2 | 16 | 13 | 13 | 3 | 5 |


| **Cam 2** (cyfanswm – 1) | | | | |
|---|---|---|---|---|
| ***Nifer a gydnabuwyd mewn 5 diwrnod*** | *Nifer o ymatebion a dderbyniwyd mewn 25 diwrnod gwaith* | *Nifer wedi'u gohirio dan amgylchiadau eithriadol* | | *Nifer a gyflawnwyd mewn 6 mis* |
| 1 | | 1 | | 1 |



**Trefn Gwyno Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol – Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant - Perfformiad Ymateb 2022/23**

| **Cam 1** (cyfanswm – 22) | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| *Cwynion a dderbyniwyd cyn pen 12 mis i'r digwyddiad* | *Cwynion a dderbyniwyd 12 mis ar ôl y digwyddiad* | *Wedi eu cydnabod o fewn 2 ddiwrnod* | *Trafodaeth i gael ei ddatrys cyn pen 10 diwrnod* | *Penderfyniad wedi ei gyhoeddi cyn pen 5 diwrnod* | *Amser ymateb wedi'i ymestyn* | *Cyfartaledd dyddiau wedi eu hymestyn* |
| 22 | 0 | 22 | 19 | 16 | 6 | 8 |

| **Cam 2** (cyfanswm – 2) | | | | |
|---|---|---|---|---|
| ***Nifer a gydnabuwyd mewn 5 diwrnod*** | *Nifer o ymatebion a dderbyniwyd mewn 25 diwrnod gwaith* | *Nifer wedi'u gohirio dan amgylchiadau eithriadol* | | *Nifer a gyflawnwyd mewn 6 mis* |
| 2 | | 2 | | 2 |



| **10.** | **Trefn Gwyno Corfforaethol Cyngor Gwynedd** |
|---|---|
| 10.1 | Ymdrinnir â rhai materion sydd y tu hwnt i orchwyl Trefn Gwyno'r Gwasanaethau Cymdeithasol o dan Bolisi Cwynion Corfforaethol Gwynedd. Mae cwynion sydd yn cael eu trafod o dan y Drefn Cwyno Gorfforaethol yn bennaf yn ymwneud a materion sydd ddim yn gysylltiedig yn uniongyrchol gyda'r gwasanaethau gofal mae'r Adran yn eu cynnig o dan y Ddeddf Gofal Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. |
| 10.2 | Ni dderbyniwyd unrhyw gwyn yn ystod 2022/23 a gafodd sylw o dan Drefn Cwynion Corfforaethol y Cyngor. |

| **11.** | **Dysgu Gwersi ac Adnabod Tueddiadau** |
|---|---|
| | **Dysgu Gwersi** |
| 11.1 | Cyflwynir adroddiadau chwarterol i gyflwyno'r modd yr ymdrinnir â chwynion i Dîmau Rheoli'r Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd a'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant. Mae hwn yn gyfle i Uwch Reolwyr i ddadansoddi pob cwyn ac i drafod a dysgu er mwyn gwella'r gwasanaeth sy'n cael ei gynnig i Ddefnyddwyr Gwasanaeth. |
| 11.2 | Mae'r Tîmau Rheoli'n cynnwys y gwersi a ddysgwyd yn eu cynlluniau gwaith diwygiedig ac fe gaiff unrhyw anghenion hyfforddiant eu hadnabod. Mae'r log gwersi i'w ddysgu cyfredol yn cael ei weinyddu gan y Swyddogion Gofal Cwsmer. Mae'r log yn cael ei ddosbarthu'n rheolaidd ymysg yr Uwch Reolwyr er mwyn eu hysbysu o'r gwersi sydd wedi cael eu hadnabod. Bydd y log yn cael ei ddiweddaru gydag unrhyw wybodaeth am weithredoedd a wnaed yn gysylltiedig â'r gwersi i'w dysgu. Mae gobaith bydd hyn yn fodd mwy effeithiol o adnabod gwersi a sicrhau fod gwelliannau yn cael eu gweithredu. |
| | **Tueddiadau Cwynion – Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd** |
| 11.3 | Mae'r Adran Blant a Chefnogi Teuluoedd yn gweithio yn ddyddiol gydag amrediad eang o deuluoedd gwahanol. Mae rhai teuluoedd yn dod i sylw'r Adran drwy ofyn yn uniongyrchol am gymorth, er enghraifft, os oes anabledd gan eu plentyn. Mae'r mwyafrif o deuluoedd yn dod i sylw'r Adran oherwydd pryderon dros les a diogelwch plentyn neu berson ifanc. |
| 11.4 | Oherwydd natur gwaith yr Adran, ac yn bennaf Gweithwyr Cymdeithasol, yn anffodus mae tensiwn neu wrthdaro gyda theuluoedd yn anochel ar adegau. Mae rhaid i Weithwyr Cymdeithasol wneud penderfyniadau anodd iawn, ac nid yw teuluoedd yn hapus bob amser. Mae'r Adran yn deall ac yn derbyn y gall teuluoedd fod yn anfodlon sydd yn arwain atynt i wneud cwyn ffurfiol yn erbyn yr Adran. |


| | |
|---|---|
| 11.5 | Mae'n deg i nodi ei bod yn anodd gweld a oes yno dueddiadau pendant neu themâu clir yn y cwynion a dderbyniwyd yn ystod 2022/23, gan fod pob cwyn yn dueddol o fod yn unigryw i bob achos. Yn unol â'r Drefn Gwynion, bydd y Rheolwr Tîm neu'r Uwch Reolwr yn trafod y gŵyn gyda'r achwynydd. Drwy gynnal trafodaeth, mae'r Rheolwr Tîm yn gallu ymateb i faterion yn uniongyrchol ac mae'r mwyafrif o achosion yn cael eu datrys dros y ffôn; mae'n glir fod y ffordd yma o ddelio â chwynion yn gweithio. Yn y mwyafrif o achosion, mae'r gŵyn yn deillio o gamddealltwriaeth a cham-gyfathrebu. Unwaith caiff y materion eu hesbonio'n llawn, rhan fwyaf o'r amser, bydd yr achwynydd yn hapus. |
| 11.6 | Mae'n bwysig iawn nodi hefyd, ar sawl achlysur pan fydd achwynwyr yn cysylltu gyda'r Swyddog Gofal Cwsmer yn gyntaf maent o dan deimlad – boed hynny yn flin neu'n ofidus am benderfyniad neu gamddealltwriaeth. Yn y mwyafrif o achosion, bydd yr achwynydd yn fodlon wedi iddynt gael y cyfle i drafod eu pryder gyda'r Swyddog Gofal Cwsmer yn gyntaf ac yna gyda'r Rheolwr Tîm perthnasol, a byddent yn hapus gyda chanlyniad y trafodaethau hyn. |
| | **Cyfathrebu** |
| 11.7 | Yn ystod 2022/23 bu tuedd unwaith eto mewn cwynion oherwydd diffyg cyfathrebu clir neu gyson gyda theuluoedd. Mae cyfathrebu clir a chyson yn hynod bwysig ac mae'r ffordd mae pethau yn cael eu hesbonio i deuluoedd o'r cychwyn yn hanfodol i sicrhau eu bod yn deall pam mae'r Adran yn gwneud yr hyn maent yn ei wneud, beth mae'r Adran yn gallu ei gynnig a, pham mewn rhai achosion, nad oes modd cynnig unrhyw wasanaeth o gwbl. Mae hefyd yn bwysig nodi bod disgwyliadau teuluoedd i dderbyn diweddariadau ac ymatebion i'w ymholiadau gan Weithwyr Cymdeithasol yn hynod o uchel, ac yn anghyraeddadwy mewn sawl achos. Hynny ydy, bydd teuluoedd yn disgwyl ymateb ar unwaith os byddent yn cysylltu gyda'r Adran, a byddent yn anniddig os na fyddai modd i'r Gweithiwr Cymdeithasol perthnasol gysylltu yn ôl gyda hwy o fewn ychydig oriau'r diwrnod hwnnw, hyd yn oed pan nad yw'n fater brys |
| | **Disgwyliadau Teuluoedd** |
| 11.8 | Mae'r tuedd hwn i'w weld yn flynyddol yn y cwynion a gaiff eu gwneud yn erbyn yr Adran, ac mae'n anodd ymateb i gwynion gan deuluoedd sydd yn teimlo y dylai'r Adran wneud mwy i'w cefnogi, yn credu y dylent dderbyn mwy o wasanaeth/cyswllt/ymyrraeth ac yn credu y dylid dychwelyd eu plant yn ôl i'w gofal. Mae disgwyliadau rhieni o beth mae'r Adran yn gallu ei gynnig yn uchel, os ydynt yn teimlo eu bod wedi cael eu methu mewn unrhyw ffordd gan yr Adran maent yn gwneud cwyn. Pan fydd cwynion o'r fath yn cael eu gwneud, bydd ymchwiliadau llawn yn cael eu cynnal ac yn y mwyafrif o achosion bydd tystiolaeth glir yn nodi fod yr Adran wedi gweithredu yn briodol ac yn unol â phrotocol. |

| | |
|---|---|
| | **Cwynion Hanesyddol** |
| 11.9 | Themâu newydd sydd wedi dod i'r fei dros y flwyddyn ddiwethaf ydi cwynion hanesyddol. Mae unigolion yn cyflwyno cwyn am ddigwyddiad/profiad sydd wedi digwydd iddynt rhai blynyddoedd yn ôl. Mae'r drefn gwynion statudol gwasanaethau cymdeithasol yn nodi nad oes rhaid i'r Adran ymchwilio i gŵyn dros flwyddyn oed. Yn amlwg mae edrych i mewn i gwynion hanesyddol yn sialens gan fod mwyafrif o staff oedd yn ymwneud a'r achos ar y pryd bellach wedi gadael cyflogaeth y Cyngor neu wedi ymddeol. Yn absenoldeb yr unigolyn hynny, mae yn anodd eu holi neu fynd i wraidd rhyw ddigwyddiad neu benderfyniad. Fel Adran nid ydym yn hoff o wrthod cwyn, ac os oes modd i'r Adran gynnal ymchwiliad teg a chyflawn yna mi fyddwn yn gwneud hynny. Mewn rhai achosion nid yw hyn yn bosib gan fod cymaint o amser wedi pasio heibio. Serch hynny mae'r unigolion yma wedi derbyn gwasanaeth gennym ac mae posib defnyddio eu profiadau i wella gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc Gwynedd i'r dyfodol. Mewn ymateb i sefyllfaoedd o'r fath rydym wedi cytuno i drefn amgen, gan wahodd yr unigolyn i drafod gyda Pherson Annibynnol i rannu eu profiadau a sicrhau eu bod yn derbyn gwrandawiad llawn. Mi fydd y Person Annibynnol yn ysgrifennu adroddiad byr i sylw'r Pennaeth er mwyn dysgu a gwella gwasanaethau i'r dyfodol. Efallai nad dyma oedd yr ymateb yr oedd yr achwynydd yn ei obeithio ei dderbyn, ond fel Adran rydym yn ceisio sicrhau eu bod yn derbyn gwrandawiad llawn a theg bob amser. |
| | **Tueddiadau Cwynion ac Ymholiadau - Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant** |
| 11.10 | Mae'r Swyddog Gofal Cwsmer yn rhan o Uned Diogelu a Sicrwydd Ansawdd (Oedolion) hefo perthynas agos a Swyddogion Monitro Gofal a'r Swyddogion Diogelu. Mae hyn yn hanfodol er mwyn rhannu gwybodaeth er mwyn adnabod achosion o Ddiogelu. Mae rhannu gwybodaeth am unrhyw gwynion a dderbyniwyd am ofal unigolion mewn cartrefi preswyl yn ddefnyddiol er mwyn adnabod problemau gofal ehangach yn y sefydliadau hynny fydd angen ymchwil pellach gan y Swyddogion Monitro. |
| 11.11 | Derbyniwyd amrywiaeth o gwynion ac ymholiadau ar themâu gwahanol yn ystod y flwyddyn. Yn debyg iawn i lynedd, y thema fwyaf amlwg a ddaeth i'n sylw yn ystod y flwyddyn oedd cwynion ac ymholiadau am effaith y trafferthion rydym wedi ei gael fel Adran i allu trefnu pecynnau gofal cartref ac i drefnu lleoliadau gofal preswyl/nyrsio mewn da bryd.<br><br>Yn ystod chwarter y flwyddyn yma, derbyniwyd 3 o ymholiadau gan Aelodau Seneddol ac Aelodau Cynulliad ar y thema yma, gan gynnwys pynciau megis:<br>• Holi am esboniad o pam bu i gwmni gofal allanol dynnu allan o becyn gofal ar fyr rybudd;<br>• Holi ar ran teulu defnyddiwr gwasanaeth am y rhesymau pam nad oeddwn yn gallu darparu oriau gofal cartref digonol;<br>• Holi ar ran teulu defnyddiwr gwasanaeth pam na allwn drefnu gofal dydd EMI yn lleol |


| | |
|---|---|
| | Daeth problem benodol i'r amlwg yn ystod wythnosau olaf y chwarter wrth i gwmni gofal allanol roi 5 diwrnod gwaith o rybudd i'r Adran cyn tynnu nôl o becynnau gofal sawl defnyddiwr gwasanaeth yn ardal Porthmadog. Yn ystod chwarter cyntaf y flwyddyn derbyniwyd dau gŵyn gan deuluoedd defnyddwyr gwasanaeth am y mater hwn gan nad oeddem wedi llwyddo ar y pryd i drefnu gofal cartref hir dymor yn ei le.<br><br>Yn ystod ail chwarter eleni, parhaodd y mater yma i achosi i'r Adran derbyn mwy o gwynion ac ymholiadau. Yr oedd 4 allan o'r 7 cwyn a dderbyniwyd yn ystod Chwarter 2 wedi eu cyflwyno gan deuluoedd defnyddwyr gwasanaeth am yr effaith roedd newid darparwr gofal yn ei gael arnynt. Trwy waith caled staff yr Adran yn cynnal trafodaethau pellach, llwyddwyd i gynnal y gwasanaeth gofal cartref yn y rhan fwyaf o'r achosion yma yn y tymor byr, a pharhaodd yr Adran i weithio'n galed i allu darparu gofal i'r tymor hir.<br><br>Roedd 3 allan o 4 cwyn a dderbyniwyd yn ystod y trydydd chwarter, yn ymwneud a'r trafferthion roedd yr Adran yn ei gael i ddarparu rhai agweddau o ofal cartref a phreswyl. Roedd y cwynion a dderbyniwyd yn ymwneud a phryderon gan deuluoedd/gofalwyr am berthnasau yn methu dod adref o'r ysbyty a/neu gartref gofal oherwydd diffyg gofalwyr cartref, ac ymatebwyd i'r cwynion yma o dan Gam 1 y Broses Cwynion. Derbyniwyd hefyd 4 ymholiad ychwanegol gan Aelodau Lleol a/neu Seneddol ar ran teuluoedd ar yr un thema.<br><br>Derbyniwyd 3 o gwynion am ansawdd gwaith un o'r darparwyr allanol sydd wedi eu comisiynu i ddarparu gwasanaethau Taliadau Uniongyrchol i ddefnyddwyr gwasanaeth. Gan fod y cwmni yn un allanol i'r Cyngor, fe weithredwyd ein polisi delio a chwynion am ddarparwyr allanol. O dan y polisi yma, mae dyletswydd arnom i gynorthwyo'r defnyddiwr gwasanaeth i gyflwyno cwyn yn uniongyrchol i'r cwmni allanol. Fe ddilynir y drefn yma er mwyn i'r cwmni allanol gael cyfle i ymateb o dan eu trefn cwynion mewnol yn lle cyntaf. Mae dal modd i'r achwynwyr i ddefnyddio trefn cwynion yr Adran os nad ydynt yn fodlon gyda'r ymateb. Mae'r Uned Busnes yn ymwybodol o'r cwynion ac yn gweithio yn agos gyda'r cwmni i sicrhau gwelliannau yn y gwasanaeth.<br><br>Yn ystod y trydydd a phedwerydd chwarter eleni, gwelwyd gostyngiad yn y nifer o ymholiadau/cwynion am y trafferthion mae'r Adran yn ei gael ar hyn o bryd i ddarparu rhai agweddau o ofal cartref/preswyl gan i ni dderbyn dim ond un cwyn ar y thema benodol yn ystod y cyfnod yma.<br><br>Er mwyn gwella'r sefyllfa, mae gwaith sylweddol yn parhau o fewn yr Adran i recriwtio staff er mwyn cynyddu'r ddarpariaeth gofal dydd ac ysbaid, ac i sicrhau fod y galw cynyddol am ein gwasanaethau gofal cartref yn gallu cael ei ddiwallu. Yn ogystal, mae'r Prosiect Gofal Cartref i ad-drefnu a gwella'r ddarpariaeth sydd ar gael yn parhau. |

| | |
|---|---|
| **12.** | **Hyfforddiant ac Ymwybyddiaeth Staff o'r Drefn Cwynion** |
| 12.1 | Rhan bwysig o ddyletswydd Gofal Cwsmer yw darparu hyfforddiant i staff o ran y Drefn Gwyno fel bod staff yn llwyr ymwybodol o'r drefn ac yn hyderus ynglŷn â'u rôl nhw ynddo. Mae'r Swyddogion Gofal Cwsmer bob amser ar gael i drafod unrhyw achosion penodol gydag aelodau o staff yr Adrannau ac i gynnig cyngor ar y ffordd orau i ymdrin ac ymholiadau neu gwynion yn erbyn yr Adran. Mae sesiwn e-ddysgu ar gyfer holl staff yn ddwy Adran wedi cael ei ddatblygu er mwyn sicrhau bod staff yn llawn ymwybodol o'r drefn gwynion a'r disgwyliadau ar staff yn ystod y broses. Mi fyddwn yn monitro'r niferoedd sydd yn ymgymryd â'r hyfforddiant a thargedu'r aelodau staff sydd heb ei gwblhau. |
| **13.** | **Dyletswyddau Eraill** |
| 13.1 | Mae Swyddog Gofal Cwsmer Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn aelod o Banel Mannau Parcio i'r Anabl, sydd yn gyfrifol am gydlynu'r broses o dderbyn ac asesu ceisiadau gan y cyhoedd am fannau parcio penodol i'r anabl tu allan i'w eiddo. Cynhelir cyfarfod Panel bob tri mis. Mae'r Swyddog yn gyfrifol am sicrhau fod y ffurflenni cais yn gyfredol a chywir, ac yn gyfrifol am dderbyn ymholiadau dros y ffon, trwy lythyr ac e-bost. Mae'r Swyddog Gofal Cwsmer yn gyfrifol am yr holl broses o gofnodi derbyn ceisiadau a'u canlyniadau, cydlynu'r cyfarfodydd Panel, a chyfathrebu canlyniadau ceisiadau trwy lythyr ar ôl bob cyfarfod Panel. |
| 13.2 | Mae'r Swyddog Gofal Cwsmer Plant a Chefnogi Teuluoedd hefyd yn ymdrin â gyda cheisiadau mynediad at wybodaeth yn unol â Deddf Diogelu Data 1998 / Deddf Diogelu Data 2018. Cyflwynwyd y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018 ar 25 Mai 2018, ac o ganlyniad bu rhai newidiadau yn y drefn a ymdrinnir â cheisiadau mynediad at wybodaeth. Mae gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant Swyddog Gweinyddol a Gwybodaeth sydd yn gyfrifol am dderbyn ac ymateb i'r ceisiadau yma. |
| 13.3 | Caiff y ceisiadau mynediad at wybodaeth o dan y Ddeddf Diogelu Data 1998 / Deddf Diogelu Data 2018 eu gwneud gan unigolion, yr Heddlu, Cyfreithwyr, y Bwrdd Iechyd a hefyd Awdurdodau Lleol eraill. Yn unol â'r Ddeddf, mae amserlenni penodol i lynu atynt, ac mae'r amserlen ymateb wedi mynd yn llawer mwy heriol ers cyflwyniad y Ddeddf newydd. |
| 13.4 | Mae penderfynu pa wybodaeth sy'n briodol i gael ei ryddhau yn waith sy'n gofyn am fedrusrwydd a gall fod yn her emosiynol ar brydiau. Mae'r Swyddogion sydd yn ymdrin â'r ceisiadau am wybodaeth yn treulio oriau maith ar rai o'r ceisiadau mwy cymhleth y mae'r Adrannau yn eu derbyn. Mae hyn yn golygu bod swmp sylweddol o oriau yn cael eu defnyddio i sicrhau bod y ceisiadau am wybodaeth yn cael eu hateb ymhen yr amser penodedig. |
| 13.5 | Mae hefyd yn ddyletswydd ar Swyddog Gofal Cwsmer Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd i gydlynu ymatebion i geisiadau rhyddid gwybodaeth o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (Freedom of Information Act 2000). Mae'r niferoedd o geisiadau o dan y Ddeddf Diogelu Data 1998 wedi cynyddu dros y flwyddyn ddiwethaf. Rydym yn gweld cynnydd yn y ceisiadau gan yr Heddlu, Asiantaethau eraill a 'subject access requests' nid yw'r rheswm yn glir dros y cynnydd hwn. |

| TABL 5. Cais am wybodaeth - Plant a Chefnogi Teuluoedd | | |
|---|---|---|
| | 2021/22 | 2022/23 |
| Ceisiadau Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 | **89** | **75** |
| Ceisiadau Deddf Diogelu Data 1998 / Deddf Diogelu Data 2018 | **147** | **202** |
| | | |
| Cyfanswm | **236** | **277** |




| TABL 5. Cais am wybodaeth - Oedolion, Iechyd a Llesiant | | |
|---|---|---|
| | 2021/22 | 2022/23 |
| Ceisiadau Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 | **69** | **64** |
| Ceisiadau Deddf Diogelu Data 1998 / Deddf Diogelu Data 2018 | **4** | **16** |
| | | |
| Cyfanswm | **73** | **80** |



| 14. | **Mynegi Diolch** |
|---|---|
| 14.1 | Yn ogystal ag ymateb i bryderon, cwynion a sylwadau eraill gan ddefnyddwyr gwasanaeth, eu teuluoedd ac aelodau o'r cyhoedd, mae'n hynod bwysig hefyd i gydnabod a chofnodi'r diolchiadau a gawn gan ein defnyddwyr gwasanaeth, teuluoedd, aelodau o'r cyhoedd a gan staff o asiantaethau eraill.<br><br>Yn ychwanegol i'r diolchiadau a'r canmoliaethau a gofnodwyd gan y Swyddog Gofal Cwsmer ar sustem cofnodi RESPOND, rydym yn ymwybodol fod nifer fawr o ddiolchiadau, anrhegion ayyb wedi cael eu cyflwyno i gartrefi preswyl y Cyngor. Daw'r rhain yn bennaf gan deuluoedd defnyddwyr gwasanaeth roedd eisiau dangos eu gwerthfawrogiad i staff am ofalu mor ofalus am eu perthnasau. |

| **NIFER Y DIOLCHIADAU YN YSTOD 2022-2023 – OEDOLION, IECHYD A LLESIANT** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaeth Oedolion (yn cynnwys Timau Ardal, Tîm Anabledd Dysgu, Tîm Iechyd Meddwl a Therapi Galwedigaethol) | Darparwr Mewnol (Gofal cartref a phreswyl) | Busnes a Chyllid | Teleofal | Gofal Cwsmer a Diogelu | **CYFANSWM** |
| **34** | **38** | **1** | | **1** | **74** |

| **NIFER Y DIOLCHIADAU YN YSTOD 2022-2023 – PLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD** |
|---|
| **CYFANSWM** |
| **85** |

| DIOLCHIADAU A CHANMOLIAETH - ENGHREIFFTIAU O 2022/2023 | | |
|---|---|---|
| "Bore da Sue, I am writing to thank you and all your colleagues for the welcome you gave to the Deputy Minister for Social Services, and the officials accompanying her, on her visit to Plas Pawb last Friday. I received feedback that the Deputy Minister enjoyed the visit very much, speaking to those who provide parenting and family support in Gwynedd, including the work on out of court parenting support and with the Ukrainian families settled in your area. We really appreciate the effort you put into this. It was invaluable for the Deputy Minister to get insight into the important work you all do to support parents and families. Diolch yn fawr i chi gyd" | Diolch | Tim Plant Meirionnydd a Dwyfor |
| "Rwyf yn anfon yr ychydig eiriau hwn fel gwerthfawrogiad liwyr o ran staff eich adran a fu mor hynod garedig a gweithgar tuag atom wrth drefnu cael cadair risiau *(stairlift)* yn ein cartref ar gyfer fy ngwraig, XX yn ddiweddar. Hoffwn ddiolch yn arbennig i Edward Owen, eich therapydd galwedigaethol, am ei gwrteisi bob amser wrth drefnu i gael y gadair yn ei lle. Rhaid hefyd canmol Colin, y gŵr ifanc o gwmni DSL Mobility am ei waith taclus yma. Mae fy ngwraig yn gwerthfawrogi'r cyfan yn fawr iawn, ac wedi ei phlesio to hwnt gyda'r peiriant newydd. Mae ei bywyd yn dipyn brafiach ar hyn o bryd, a'r daith i fyny'r grisiau erbyn hyn yn llawer caredicach ar ei symudiadau! Diolch o galon i Gyngor Gwynedd a'i staff rhadlon unwaith eto, ar ran fy mhriod a minnau" | Diolch | Gwasanaeth Therapi Galwedigaethol Oedolion (Darparu Mewnol) |
| "Hello just a email to highlight the support I have had from Maria since XXXXXXX. My first thought was that it was going be a nightmare and all negative support and I was dreading it ... but to my surprise I have had 100% brilliant support and advice from the service... the help has got me on track and taught me different ways of being a parent .... not just this it has mentally helped me. Finance advice which I had very good support from Maria with I cannot praise enough she pointed me in the right direction, and I could message or call her any time for any advice which helped me a lot when you sit there over thinking things. Thank you for this support" | Diolch | Tim Trothwy Gofal |
| "Yn ddiweddar bu i ni golli Mam oedd yn breswylydd yng nghartref Plas Hafan yn Nefyn. Bu'n byw yn hapus iawn yno am dair blynedd ac mae ein dyled fel teulu yn fawr iawn i'r holl staff a fu'n gofalu amdani mor annwyl ac am yr holl dynnu coes a chwerthin a gafodd hi ar hyd yr amser. Er y rhwystrau a wynebwyd ganddynt yn ystod y pandemic, roedd gwybod fod Mam yn derbyn y gofal gorau un yn gysur mawr i'r teulu a | Diolch | Gwasanaeth Preswyl a Dydd (Darparu Mewnol) |

| | | |
|---|---|---|
| chafwyd cyfle yn aml i sgwrsio a hi drwy gyfrwng 'facetime' neu allan yn yr ardd yn ddiogel. Doedd dim byd yn ormod o drafferth. Byddaf yn fythol ddiolchgar iddynt am eu hymroddiad diflino i sicrhau fod lles y preswylwyr yn flaenoriaeth bob amser.<br><br>Ni ddywedodd Mam unrhyw air croes am Blas Hafan ac roedd hi'n ddynes a oedd yn barod iawn ei barn ar amryw o faterion!<br><br>Yn ystod ei wythnosau olaf aeth pob aelod o'r staff oedd yn gofalu amdani'r filltir ychwanegol er mwyn sicrhau bod Mam yn gyfforddus ac yn cael popeth yr oedd hi ei angen yn gyfleus ac o fewn ei chyrraedd. Edrychwyd ar ein holau fel teulu wrth ymweld a doedd paned a thamaid o gacen byth yn bell i ffwrdd. Byddem yn fythol ddiolchgar i Blas Hafan am wneud blynyddoedd olaf fy Mam yn rai hapus iawn yn llawn ddiddan a chwerthin.<br><br>Dyw geiriau fel hyn ddim yn ddigon i gyfleu ein diolchgarwch am y gofal a gafwyd a bydd pasio Plas Hafan yn Nefyn yn dod a llu o atgofion melys iawn yn ôl i ni.<br><br>Carem i chi gyfleu ein diolch iddynt - pob un aelod o staff yno am eu gwaith caled a'u hanwyldeb wrth ofalu am fy Mam. Bydd eu caredigrwydd yn aros gyda ni am byth" | | |
| "I would just like to compliment one of your social workers Dylan Wyn Owen in relation to the child XXXX. Dylan has been fantastic in his correspondence with Conwy Social Worker, ensuring that XXXX has had the best transfer from Gwynedd SSD to Conwy SSD. Dylan definitely at all times has had XXXX best interest at heart and has worked to ensure that his transition to Conwy LA has been as smooth as possible. I have just chaired a meeting that Dylan attended which was so positive and demonstrated such good practice from Dylan that I felt the need to email you and let you know. This is a great example of how social workers and neighbouring LA's should definitely work and all credit to Dylan who has demonstrated 'good practice'." | Diolch | Tim 16+ |
| "We laid A to rest last Thursday, in her garden with her beloved dog. We had a very quiet ceremony with just immediate family, a very simple but loving service - followed by tea with neighbours and friends looking at photos and remembering A. A walk on the beach plus ice cream from T on Friday followed, all in the beautiful Welsh sunshine. It was a joyful couple of days with everyone staying at the cottage, not empty after all but filled with love and laughter, and some tears!!<br><br>Thank you for everything you did for A, to enable her to stay in her cottage. I know this was not always easy, and that she provided some challenges along the way, but you were crucial in her being allowed to see out her days in her own home by ensuring she was provided with all the equipment and supplies | Diolch | Gofal Cartref (Darparu Mewnol) |

| | | |
|---|---|---|
| she needed, especially in the final few months when A was so dependant on the help of others.<br><br>You always treated A with such respect and kindness, nothing seemed too hard or complicated for you and your team. You gave her dignity when she deserved it, and I think that given the constraints that I know you have to deal with, financial and time being two of them, this was such an achievement. You were always there to listen to us, reassure us, and explain to us what was needed, you always organised things so quickly, you always returned our calls and messages, you understood how difficult it is as worried family wanting the best for their loved one, basically you were AMAZING.<br><br>I am sure that there are many other families benefitting from your expertise and support, you do such brilliant work, thank you again. Take care of yourself too though." | | |
| "Since suffering a stroke some years ago Mum was housebound at home and was lucky enough to receive regular domestic visits from the beautiful people formerly working with Abercare, and more recently for the Gwynedd Care Service. Words cannot express enough our thanks for all the love and hard work provided. Mum was always a staunch proponent of workers<br>rights and would certainly agree that our beloved care workers deserve better pay and conditions. We thank the care workers for respecting the wishes of elderly and vulnerable care recipients, and getting things done often under difficult circumstances." | Diolch | Gofal Cartref<br>(Darparu Mewnol) |
| "Ag isho gyrru negas i chdi (Haf Owen), Ann taylor, Stephanie a Tîm Drws y Nant os tin gweld nw i ddeud diolch hiwj am y dau flwyddun dwytha ma a isho deu sori i bawb am sud oni oblaen ond dwi di newid a falch iawn bod fi wedi a ma huna drw help Ann Taylor a Tara hefo therepy ag roid y chance i fi a isho diolch i chdi am bob dim hefor XXXX ag hefo XXXX ti di bod yn ffêr hefo fi drwdda fo a dwin deud hun mewn ffor mwua neis erioed wan dwin gobeithio dwim n mund i weld social buth eto ond diolchi chi mor gymaimt x" | Diolch | Tîm Trothwy Gofal, Tîm Plant Arfon 2, Gwasanaeth Cefnogol a Thîm Adolygiadau |
| "Yng nghanol byd o gwyno, mae'n bleser gennyf anfon neges o ddiolch, gwerthfawrogiad a chanmoliaeth. Mae mam yn dirywio a bore ddoe cefais neges gan gymydog iddi yn mynegi pryderon. Yn fuan wedyn, aeth gofalwraig i weld mam gan ei bod yn ei hadnabod ac fe wnaeth ganfod fy rhif a fy ffonio fi i adrodd ei phryderon. Doedd dim rhaid iddi wneud ac rwyf yn gwerthfawrogi yn fawr. Yn ystod pnawn, bu i weithiwr/rheolwr arall o dy wasanaeth ymweld â mam ar ymweliad arferol oedd wedi ei drefnu ac fe gysylltodd gyda mi trwy ffon symudol a gadael neges destun pan nad oedd ateb. Diolchais iddi a chefais neges annwyl a chwrtais yn llawn gofal a chonsyrn y tu allan i | Diolch | Gwasanaeth Gofal Cartref<br>(Darparu Mewnol) |

| | | |
|---|---|---|
| amser gwaith. Hoffwn ddiolch yn fawr i Hayley a Rowenna am bopeth ac yn anffodus, mae'n debygol y bydd angen cysylltiad â threfniadau pellach gyda hwy a'u cyd-weithwyr yn y dyfodol wrth i gyflwr mam ddirywio - henaint ni ddaw ei hunain. Rwyf yn disgwyl adroddiad ar y ffordd ymlaen ond pwrpas y neges yma yw cydnabod ymroddiad a diolch" | | |
| "After the recent passing of my sister, I would like to thank all the staff at Plas Pengwaith for the care an devotion demonstrated towards my sister during the last 5 years whilst she was a resident there. Whenever I visited I always felt that she was in a warm, friendly, caring environment and she only had words of praise for all the staff who looked after her.<br><br>Diolch o galon am eich caredigrwydd tuag ati a hefyd eich defosiwn, ymroddiad a'ch caredigrwydd. Fel teulu rydym wedi gwerthfawrogi eich gofal tyner tuag ati. Mae hi'n gorffwys nawr ac yn canu gyda'r angylion" | Diolch | Gwasanaeth Preswyl a Dydd (Darparu Mewnol) |

| **15.** | **Cynllun Gwaith ar gyfer 2023/24** |
|---|---|
| 15.1 | Bydd y Swyddogion Gofal Cwsmer yn parhau i ymateb i bryderon, ymholiadau a chwynion trwy ddilyn Trefn Gwynion Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru, gan sicrhau fod gwersi i'w dysgu o bob achos yn cael sylw'r Tîm Rheoli Adrannol yn rheolaidd ac yn amserol. Parhau i fonitro'r gweithrediadau sydd yn cymryd lle er mwyn datblygu'r gwasanaeth. |
| 15.2 | Bydd y Swyddog Gofal Cwsmer yn parhau i gadeirio Grŵp Swyddogion Gofal Cwsmer Gogledd Cymru (NWCOG) am y flwyddyn i ddod. Cynhelir cyfarfodydd bob tri mis. |
| 15.3 | Bydd gwaith pellach hefyd yn cael ei gwblhau i geisio annog gweithwyr ar draws y ddwy Adran i gysylltu gyda'r Swyddogion Gofal Cwsmer i rannu unrhyw ddiolchiadau neu sylwadau canmoliaethus maent yn eu derbyn. Mae ymdeimlad ar hyn o bryd fod aelodau o staff yn teimlo nad yw'n briodol i rannu rhai sylwadau, ond mae'r Swyddogion Gofal Cwsmer yn awyddus i newid hyn. |
| 15.4 | Hybu'r staff i gwblhau'r sesiwn hyfforddiant e-ddysgu er mwyn sicrhau eu bod yn llawn ymwybodol o'r broses ac yn gyfarwydd gyda'r camau sydd angen eu cymryd yn ystod y broses. |
| 15.3 | Bydd y Swyddogion Gofal Cwsmer yn gweithio ar y cyd gyda'r Rheolwr Cysylltiadau Cyhoeddus a Chyfathrebu i ddiweddaru ac ail-ddylunio'r tudalennau ar wefan y Cyngor ar weithdrefnau'r Broses Cwynion. Mae'r gwaith uchod yn hanfodol bwysig er mwyn sicrhau fod y wybodaeth am sut i gyflwyno cwyn yn glir ac yn gyfredol gywir, gan hefyd sicrhau fod y broses yn agored i bawb sydd ei angen. Rhagwelir bydd y gwaith yma wedi cael ei gwblhau cyn diwedd Haf 2023. |

| 16. | **Ystadegau defnydd y Gymraeg a'r Saesneg wrth ymateb i gwynion ac ymholiadau** |
|---|---|
| 16.1 | Mae'r Swyddog Gofal Cwsmer yn ymateb i ymholiadau a chwynion yn yr iaith a ddymunir ei ddefnyddio gan yr ymholwr neu'r achwynydd. Gweler y ffigyrau perthnasol ar y defnydd o'r ddwy iaith isod. |

| **Iaith ddethol yr Achwynydd i wneud ymholiad/cwyn yn ystod 2022/2023 – Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant** | | | |
|---|---|---|---|
| | **Cymraeg** | **Saesneg** | **Cyfanswm** |
| *Ymholiadau a Chwynion Anffurfiol* | 23 | 29 | **52** |
| *Cam 1* | 7 | 15 | **22** |
| *Cam 2* | 1 | 1 | **2** |
| *Corfforaethol* | 0 | 0 | **0** |
| *Ombwdsmon* | 0 | 0 | **0** |

| **Iaith ddethol yr Achwynydd i wneud ymholiad/cwyn yn ystod 2022/2023 – Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd** | | | |
|---|---|---|---|
| | **Cymraeg** | **Saesneg** | **Cyfanswm** |
| *Cam 1* | 2 | 14 | **16** |
| *Cam 2* | 0 | 1 | **1** |
| *Corfforaethol* | 0 | 0 | **0** |
| *Ombwdsmon* | 0 | 0 | **0** |

| ATODIAD 1(a) – ENGHREIFFTIAU O GWYNION A SYLWADAU ADRAN PLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD YN YSTOD 2022/23 | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfeirnod** | **Disgrifiad byr** | **Cam** | **Tîm** | **Ymateb** | **Gwersi i'w dysgu** | **Sail i'r gŵyn** |
| GC/11975-22 | Cwyn wedi ei dderbyn gan riant ynglŷn â'r Gwasanaeth. Y tad rhiant ddim yn teimlo fod y Gwasanaeth yn cymryd ei gonsyrn o ddifri. Roedd eisiau ymchwiliad i mewn i'r hyn yr oedd wedi ei godi a chael Gweithiwr Cymdeithasol newydd ar yr achos. | Cam 1 | Tîm Plant Meirionnydd a Dwyfor | Bu i'r Rheolwr Tîm perthnasol gysylltu gyda'r rhiant dros y ffôn i drafod y gwyn ymhellach. Bu iddo dderbyn cadarnhad fod pob consyrn wedi derbyn sylw llawn. Yn dilyn yr esboniad llawn bu i'r achwynydd deimlo yn well a bu iddynt barhau i weithio gyda'r Gwasanaeth er lles y plant. | Dim gwers wedi ei adnabod. | Nid oedd sail i'r gwyn. |
| GC/12605-22 | Cwyn wedi ei dderbyn gan riant am aelod o staff. Roedd y rhiant yn teimlo fod yr aelod staff wedi torri cyfrinachedd. | Cam 1 | Tîm Maethu | Bu i'r mater dderbyn sylw gan Helen Parry, Uwch Swyddog Statudol Diogelu Data'r Cyngor. Bu iddi adnabod nad oedd unrhyw dystiolaeth o dorri cyfrinachedd wedi digwydd.<br><br>Bu i'r Uwch Reolwr Gweithredol – Adnoddau ysgrifennu at yr achwynydd gyda'r canlyniad. Mae'r Adran yn deall er nad oedd tystiolaeth fod torri cyfrinachedd wedi digwydd roedd yr achwynydd o dan deimlad am y sefyllfa. Bu i'r aelod staff ysgrifennu yn bersonol i'r achwynydd i ymddiheuro. | Dim gwers wedi ei adnabod. | Nid oedd sail i'r gwyn. |
| GC/13021-22 | Cwyn gan riant am Weithiwr Cymdeithasol. Teimlo nad yw'r Gweithiwr Cymdeithasol yn cysylltu gydag ef a bod perthynas gyda'r Gweithiwr Cymdeithasol wedi torri lawr. Eisiau Gweithiwr Cymdeithasol newydd. | Cam 1 | Tîm Plant Meirionnydd a Dwyfor | Bu i'r Rheolwr Tîm perthnasol gysylltu gyda'r achwynydd i drafod. Daeth yn amlwg fod disgwyliadau mawr gan y rhiant o ran gyswllt gyda'r Gweithiwr Cymdeithasol. Trafodwyd rôl y Gweithiwr Cymdeithasol gydag ef, roedd yn fodlon parhau i weithio gyda'r Gweithiwr Cymdeithasol er lles y plant. | Dim gwers wedi ei adnabod. | Nid oedd sail i'r gwyn. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| GC/13065-22 | Cwyn wedi cyrraedd ynglŷn â'r ffordd bu i'r Tîm Tu Allan i Oriau ddelio gydag achos o argyfwng yn ymwneud ag asesu unigolyn i'r Uned Hergest. | Cam 1 | Tîm Tu Allan i Oriau | Bu i'r Rheolwr Tîm perthnasol ymchwilio i mewn i'r gwyn ac ysgrifennu ymateb llawn i'r achwynydd. Roedd yn bwysig nodi fod y Tîm Tu Allan i Oriau yn ymateb ar y cyd gyda'r Seicolegydd ar alwad y noson honno.<br><br>Roedd unrhyw benderfyniadau yn ymwneud a gofal brys yr unigolyn wedi ei wneud gan staff y Bwrdd Iechyd. Bu i'r Rheolwr ymddiheuro ar ran y Tîm am unrhyw ddrwg deimlad ar y noson honno. | Dim gwers wedi ei adnabod. | Dim sail i'r gwyn. |
| GC/13488-23 | Cwyn wedi cyrraedd gan berthynas i blentyn. Maent yn anhapus gyda chanlyniad asesiad ac eisiau'r mater dderbyn sylw gan Uwch Reolwr. | Cam 1 | Tîm Maethu | Gan fod y mater hwn yn y Llys, ni allwn brosesu'r gwyn ar y pwynt yma. Unwaith mae'r gwrandawiad olaf wedi bod mi fyddwn yn prosesu'r gwyn yn unol â threfniadau proses cwynion gwasanaethau cymdeithasol. | Mi wnawn edrych ar hyn unwaith mae'r gwyn wedi ei ymchwilio. | Mi wnawn edrych ar hyn unwaith mae'r gwyn wedi ei ymchwilio. |
| GC/13706-23 | Cwyn hanesyddol gan unigolyn. Roedd yr unigolyn eisiau gwneud cwyn nad oedd y Gweithiwr Cymdeithasol wedi gwrando ac wedi ymateb iddi yn dilyn digwyddiad 10 mlynedd nol. Roedd eisiau ymchwiliad llawn i mewn i'w chwyn. | Cam 1 | Tîm Plant Arfon | Bu i'r Uwch Reolwr drafod yn llawn gyda'r Uwch Swyddog Cwynion gan fod 10 mlynedd wedi pasio heibio. Nid oedd y Gweithiwr Cymdeithasol yn gweithio yma ymhellach, ac felly mi fyddai rhaid dibynnu ar gofnodion yn unig i ymchwilio i'r gwyn.<br><br>Gan fod cymaint o amser wedi pasio heibio ni fyddai wedi bod yn bosib cynnal ymchwiliad teg i mewn i'r gwyn. Serch hynny, er mwyn sicrhau fod yr unigolyn yn cael cyfle i gael gwrandawiad bu i'r Adran apwyntio Person Annibynnol i gwrdd â'r achwynydd i wrando ar ei phrofiadau ac ysgrifennu adroddiad byr. Mi fydd yr Adran | Nid yw'r Adroddiad wedi ein cyrraedd eto. | Yn unol â'r canllawiau cwynion, gan fod y mater yn un hanesyddol ac ar ôl trafodaeth lawn penderfynwyd nad oedd posib ymchwilio i mewn i'r gwyn yn llawn. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | yn defnyddio'r sylwadau i ddysgu a gwella gwasanaeth i'r dyfodol. | | |
| GC/13022-22 | Cwyn hanesyddol arall, dyddio nôl eto tua 10 mlynedd. Yr unigolyn yn teimlo fod yr Adran wedi ei gadael i lawr, ddim wedi ei chadw yn saff ac eisiau ceisio am iawndal. | Cam 1 | Tîm Plant Arfon | Gan i'r unigolyn ddatgan ei bod am ddod a chais iawndal yn erbyn yr Adran ni fyddai'n addas i'r Adran ymateb i'r gwyn ar y pwynt yma. Gall ddarparu ymateb amharu ar unrhyw brosesu Llys. | Dim gwers i'w nodi. | Ni allwn edrych ymhellach ar y gwyn gan iddi ddatgan eu bwriad o geisio iawndal. |
| GC/13656-23 | Cwyn gan riant am Swyddog Adolygu Annibynnol. Roedd y rhiant wedi cael gwybodaeth fod y Swyddog wedi defnyddio iaith anaddas wrth ei ddisgrifio mewn sgwrs gyda'i chyn-partner. | Cam 1 | Uned Diogelu ac Ansawdd | Bu i'r Uwch Reolwr Diogelu ac Ansawdd ymchwilio i mewn i'r gwyn. Bu i'r achwynydd dderbyn llythyr yn esbonio yn llawn y camau a gymerwyd a beth oedd canlyniad i'r ymchwiliad. Nid oedd unrhyw dystiolaeth i gyd fynd a'r hyn a nodwyd o fewn llythyr cwyn yr unigolyn. | Dim gwers wedi ei adnabod. | Nid oedd sail i'r gwyn. |

| ATODIAD 1(b) – ENGHREIFFTIAU O GWYNION A SYLWADAU ADRAN OEDOLION, IECHYD A LLESIANT YN YSTOD 2022/23 | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfeirnod** | **Disgrifiad byr** | **Cam** | **Tîm** | **Ymateb** | **Gwersi i'w dysgu** | **Sail i'r gŵyn** |
| GC/12025-22 | Perthynas yn pryderu am yr oedi hir cyn gallu trefnu darpariaeth gofal cartref i ddefnyddiwr gwasanaeth sydd yn aros dros dro mewn cartref preswyl | Cam 1 | Gwasanaeth Oedolion | Ymddiheuriad ac esboniad am y rhesymau am y diffyg argaeledd oriau gofal cartref wedi ei ddarparu. Adran yn ymrwymo i geisio trefnu gofal cartref cyn gynted â phosib | Dim gwers wedi ei adnabod. | Cadarnhau bod sail i'r cwyn |
| GC/12085-22 | Defnyddiwr gwasanaeth yn anfodlon fod aelod o staff wedi cysylltu efo hi dros y ffon yn lle anfon e-bost | Cam 1 | Gwasanaeth Oedolion | Ymddiheuriad wedi ei ddarparu a nodyn wedi ei adio i'r ffeil i sicrhau bydd staff yn anfon e-byst yn unig o hyn ymlaen | Pwysigrwydd gwirio pa fodd o gysylltu sydd orau gan defnyddwyr gwasanaethau | Cadarnhau bod sail i'r cwyn |
| GC/12806-22 | Teulu defnyddiwr gwasanaeth yn mynegi pryderon am wasanaeth gofal cartref yn dod i ben gan fod cwmni gofal allanol yn tynnu allan o'r ardal, a bod dim gwasanaeth ar gael yn ei le. Teulu yn gofyn am esboniad a datrysiad ar frys | Cam 1 | Gwasanaeth Oedolion | Ymddiheuriad ac esboniad llawn wedi ei ddarparu am yr amgylchiadau sydd wedi codi oherwydd i gwmni gofal cartref allanol dynnu allan o ardal benodol. Sawl pecyn gofal wedi dod i ben a bod gwaith caled yn cael ei wneud i geisio darparwr arall i gymryd drosodd | Dim gwers wedi ei adnabod. | Cadarnhau bod sail i'r cwyn |
| GC/12860-22 | Cymydog i ddefnyddiwr gwasanaeth yn adrodd fod staff gofal cartref yn gadael giatiau fferm yn agored wrth fynd a dod i ofalu amdano. | Cam 1 | Gofal Cartref (Darparu Mewnol) | Ymddiheuriad llawn wedi ei ddarparu, yn ogystal â dosbarthu cyfarwyddiadau clir i'r holl staff gofal cartref am y pwysigrwydd o gadw giatiau ynghau am resymau diogelwch | Atgoffa staff o'r Cod Cefn Gwlad a'r pwysigrwydd o gau giatiau fferm bob amser | Cadarnhau bod sail i'r cwyn |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| GC/12979-23 | Teulu defnyddiwr gwasanaeth yn mynegi pryder am y diffyg darpariaeth gofal cartref sydd ar gael er mwyn galluogi eu perthynas i ddod adref o'r ysbyty | Cam 1 | Gwasanaeth Oedolion | Gwybodaeth wedi ei ddarparu am y rhesymau am yr oedi cyn gallu trefnu'r gofal cartref yn yr achos yma. Ymrwymiad wedi ei roi i geisio datrys y broblem cyn gynted â phosib | Dim gwers newydd wedi ei adnabod | Cadarnhau bod sail i'r cwyn |
| GC/13605-23 | Defnyddiwr gwasanaeth eisiau cyflwyno cwyn am ddiffyg cefnogaeth gan y gwasanaeth i ddiwallu ei anghenion. | Cam 1 | Gwasanaeth Oedolion | Rheolwr Ardal wedi cynnal ymweliad cartref i drafod ei phryderon ac wedi dod i ddatrys y materion dan sylw | Dim gwers newydd wedi ei adnabod | Dim sail i'r cwyn |
| GC/13765-22 | Perthynas defnyddiwr gwasanaeth yn mynegi pryder am yr amser hir sydd wedi pasio ers i'w pherthynas ymuno a'r rhestr aros am ofal cartref. | Cam 1 | Gwasanaeth Oedolion | Ymddiheuriad wedi ei ddarparu ynghyd a gwybodaeth lawn am y rhesymau pam fod sawl person yn profi oedi hir cyn gallu cychwyn pecynnau gofal cartref | Dim gwers newydd wedi ei adnabod | Cadarnhau bod sail i'r cwyn |
| GC/13825-23 | Eiriolwr ar ran teulu defnyddiwr gwasanaeth yn mynegi honiadau gan y teulu fod gwybodaeth bersonol amdano wedi cael ei rannu ag aelod arall o'r teulu heb ei ganiatâd | Cam 1 | Gwasanaeth Oedolion | Ymchwiliad llawn wedi ei gynnal. Dim tystiolaeth fod gwybodaeth wedi cael ei rannu gydag unrhyw berson na ddylai fod wedi ei dderbyn. Ymateb llawn wedi ei ddarparu | Dim gwers newydd wedi ei adnabod. | Dim sail i'r cwyn |

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Craffu Gofal** |
| **DYDDIAD** | **11eg Ebrill, 2024** |
| **TEITL** | **Gwasanaeth Egwyl Fer (Tîm Integredig Derwen)** |
| **PWRPAS** | **Er mwyn cael sicrwydd bod darpariaeth addas ar gael i bawb sydd angen y gwasanaeth** |
| **AWDUR** | **Marian Parry Hughes** |
| **Aelod Cabinet** | **Cynghorydd Elin Walker-Jones** |

**1.0 Cefndir**

1.1 Mae'r gwasanaeth cefnogol yn darparu egwyl fer mewn sawl dull gwahanol, trwy'r gwasanaethau gofal cartref, cymunedol a'r grwpiau amrywiol. Fe all yr egwyl fer yma fod o 2 awr yr wythnos hyd at ofal dros nos.

1.2 Mae'r sesiynau yn canolbwyntio ar ddarparu egwyl fer i'r teuluoedd ond hefyd yn rhoi ffocws ar ddatblygu sgiliau bywyd a chymdeithasol y plant.

1.3 Mae cyd weithio agos gydag uned egwyl fer Hafan Y Sêr i sicrhau fod y plant yn cael cyflwyniad cadarnhaol i'r uned.

1.4 Mae'r rhestrau aros am wasanaethau wedi cynyddu gan fod rhai problemau recriwtio yn parhau a hefyd rydym wedi gweld cynnydd sylweddol mewn cyfeiriadau am wasanaeth yn ddiweddar.

1.5 Rhai esiamplau o'r ddarpariaeth egwyl fer ydi gofal cartref, gofal cymunedol, gwasanaeth grwpiau, Amser Ni sydd yn brosiect i ddatblygu cyfleoedd egwyl fer drwy ofyn am wirfoddolwyr, tripiau dydd, arosiadau dros nos, grwpiau 16-25 oed, gwaith gyda brodyr a chwiorydd a system 'buddy' a diwrnodiau hwyl i'r teulu.

1.6 Mae rhan o waith gwasanaeth Derwen hefyd gyda Gweithwyr Cymdeithasol sydd yn darparu asesiadau o fewn 42 diwrnod gwaith. Fel rhan o'r gwaith yma mae gweithiwr cymdeithasol sydd yn benodol yn edrych ar yr elfen rhieni maeth egwyl fer. Maent hefyd yn cydweithio gyda'r Tim Maethu er mwyn recriwtio gofalwyr maeth i helpu gyda gwaith Amser Ni.

**2.0 Beth yw'r ddarpariaeth egwyl fer sydd ar gael yng Ngwynedd?**

2.1 Mae Amser Ni yn ddarpariaeth sydd dros Wynedd a mae 5 elfen iddo sef gwirfoddoli, gweithgareddau, gwasanaeth Cefnogol, egwyl fer dros nos efo teulu ac egwyl preswyl dros nos. Felly mae dwyster y gefnogaeth yn mynd o'r haen isaf sef gwirfoddoli i fyny i'r haen uchaf o gefnogaeth sef egwyl preswyl dros nos.

**2.2 Gwirfoddolwyr**

2.3 Mae Amser ni yn brosiect ar y cyd rhwng Gwynedd a Môn i edrych ar ddatblygu cyfleoedd egwyl fer i blant anabl a'u teuluoedd. Prif elfennau o'r cynllun yma :

- Darparu gwirfoddolwyr fel 'buddy' i'r teuluoedd
- Trefnu tripiau dydd
- Arosiadau dros nos
- Grwpiau 16 -25

Effaith y gwasanaeth:

- Mae gan blant a phobl ifanc ystod ehangach o weithgareddau a chyfleoedd i gymryd rhan mewn amgylcheddau diogel a chefnogol.
- Mae teuluoedd, rhieni a gofalwyr yn cynyddu gwydnwch a lles emosiynol gwell

- Mae perthnasoedd o fewn y teulu yn fwy sefydlog.

**2.4 Gwaith 'siblings / buddy'**

2.5 Gan fod yna ddiffyg wedi bod mewn recriwtio gwirfoddolwyr, dim ond 1 teulu sydd yn derbyn gwaith 'buddy' ar hyn o bryd. Mae hyn yn engraifft o wirfoddolwr yn mynd a brawd plentyn anabl i chwarae pêl fasged yn wythnosol, ac mae wedi creu perthynas gref gyda'r brawd a'r rhiant ac mae'r rhiant yn adrodd fod y ddarpariaeth wedi helpu lleihau pryder a chodi hyder y brawd.

**2.6 Gweithgareddau**

**2.7 Tripiau Dydd**

2.8 Darperir tripiau dydd yn ystod gwyliau ysgol i blant dros 12 gyda 10 o blant yn mynychu'r tripiau yma yn rheolaidd. Diwrnodiau wedi digwydd yn Flip Out, Sinema, Glasfryn, SC2 gydag adborth cadarnhaol wedi derbyn gan y teuluoedd.

**2.9 Grwpiau 16-25**

2.10 Grŵp ar y cyd efo tîm Llwybrau Llesiant yn rhoi ffocws ar y trosglwyddiad i wasanaethau oedolion yn cael eu cynnal yn ystod gwyliau ysgol.

**2.11 Diwrnodiau hwyl i deuluoedd**

2.12 Trefnwyd 4 diwrnod hwyl i deuluoedd dros y flwyddyn ddiwethaf, ac fe fu rhain yn llwyddiannus iawn gyda hyd at 20 o deuluoedd yn mynychu'r diwrnodiau yma. Mae'r diwrnod yn rhoi cyfle i'r teuluoedd gael sgwrsio a thrafod gyda'i gilydd a rhoi cyfle i'r plant wneud gweithgareddau mewn amgylchedd ddiogel.

**2.13 Gwasanaeth Cefnogol**

**2.14 Gwasanaeth Grwpiau**

2.15 Mae grwpiau amrywiol wedi eu sefydlu ar draws y sir

2.16 Mae grwpiau ar ddydd Sadwrn yn Arfon a Dwyfor gyda hyd at 25 o blant yn mynychu ar y tro. Trefnir sesiwn grŵp chwarae yn ystod gwyliau ysgol yn y 3 ardal yn darparu amrywiaeth o weithgareddau.

2.17 Mae llawer o gyd weithio wedi digwydd i greu cyfleoedd newydd yn y sir:

- Gweithio gyda thîm Byw'n Iach i greu sesiynau chwarae a nofio distaw i blant gydag anghenion ychwanegol ac mae rhain yn cael ei ddarparu mewn 4 canolfan ar draws y sir yn fisol.
- Cyd weithio gyda'r tîm ieuenctid i sicrhau fod clybiau ieuenctid ar gael i blant a phobl ifanc gydag anghenion ychwanegol.

**2.18 Grwpiau 16-25**

2.19 Grŵp ar y cyd efo tîm Llwybrau Llesiant yn rhoi ffocws ar y trosglwyddiad i wasanaethau oedolion yn cael eu cynnal yn ystod gwyliau ysgol.

**2.20 Egwyl Fer Dros Nos gyda teulu**

**2.21 Gofal Cartref**

2.22 Mae hyn yn cynnwys enghraifft o ddau weithiwr cefnogol yn darparu sesiwn dros nos yng nghartref y plentyn yn wythnosol i alluogi'r teulu gael noson o gwsg, ac achos lle mae gweithiwr yn cefnogi plentyn yn y bore i alluogi rhiant fynd i'w gwaith.

**2.23 <u>Gofal Cymunedol</u>**

2.24 Fel rheol mae'r gwasanaeth cymunedol yn cael ei ddarparu ar ôl ysgol neu ar benwythnosau, er mwyn galluogi'r teuluoedd i dreulio amser gyda'r brawd / chwaer, amser i neud siopa bwyd wythnosol neu i gael amser i'w hunain. Mae'r egwyl fer yma yn werthfawr iawn i'r teuluoedd a'r plant gyda'r teuluoedd yn ddiolchgar iawn o'r gwasanaeth.

2.25 Lle mae sefyllfa cartref yn fregus, darperir gofal dros nos i blentyn bob 6 wythnos.

**<u>2.26 Egwyl Preswyl dros nos</u>**

**<u>2.27 Arosiadau Dros Nos</u>**

2.28 Mae 2 arhosiad y mis wedi ei drefnu i blant dros 14 yn Rhos y Gwalia, Bala.

**<u>2.29 Hafan y Sêr – adeilad preswyl egwyl fer</u>**

2.30 Mae Hafan y Sêr yn darparu egwyl fer ar gyfer plant sydd eisoes yn agored i Derwen sydd gydag anableddau dysgu ac anableddau corfforol. Mae yn adeilad ym Mhenrhyndeudraeth i roi egwyl fer i rieni a theuluoedd oherwydd bod y plant gydag anghenion dwys.

2.31 Mae Hafan y Sêr yn darparu i 45 o blant erbyn hyn, mae'r rhain yn blant sydd yn dod am arosiadau rheolaidd neu wrthi yn ymgyfarwyddo gyda'r gwasanaeth drwy gynlluniau cyflwyno yn mynd yn ei blaen.

2.32 Mae oedrannau'r plant sydd yn cael mynediad i Hafan y Sêr rhwng 8-18 oed. I roi trosolwg o'r anghenion o'r 45 o blant/pobl ifanc sydd yn derbyn y gwasanaeth mae 10 gydag anableddau corfforol/iechyd, 29 gydag Awtistiaeth a 6 gydag anableddau dysgu/cyflyrau genetic arall.

3.0 **<u>Faint o ddefnydd a wneir o'r ddarpariaeth?</u>**

3.1 Mae galw uchel ar wasanaeth Tim Cefnogol Derwen. Mae nifer o blant sydd yn cael gwasanaeth Cefnogol yn 232 a'r oriau a ddaperir- yn wythnosol ydi 1014. Mae'r oriau yn cael eu defnyddio i fynd â plant i grwpiau, neu i fynd allan am y dydd er mwyn rhoi seibiant i rieni. Yn ogystal darperir gofal cartref i helpu teuluoedd ddygymod gydag anghenion eu plant drwy roi seibiant i rieni gysgu. Mae niferoedd sydd ar y rhestr aros yn 25.

3.2 Mae'r gwaith arall y mae tîm Cefnogol Derwen yn ei wneud gyda gwirfoddolwyr, trefnu tripiau dydd a gweithio system 'buddy'. Mae 39 o blant yn derbyn y gwasanaeth yma gyda 14 ar y rhestr aros.

3.3 Gweler isod niferoedd sydd wedi derbyn gwasanaeth gan y Tim Cefnogol Derwen dros y dair blynedd diwethaf:

3.4

| **2021/2022** | |
|---|---|
| Nifer Plant | 159 |
| Cyfeiriadau Newydd / Cynnydd Oriau | 72 |

| | |
|---|---|
| Oriau | 59448 |

3.5

| 2022/2023 | |
|---|---|
| Nifer Plant | 162 |
| Cyfeiriadau Newydd / Cynnydd Oriau | 93 |
| Oriau | 64435 |

3.6

| 2023/2024 | |
|---|---|
| Nifer Plant | 232 |
| Cyfeiriadau Newydd / Cynnydd Oriau | 103 |
| Oriau | 70526 |

3.7 Mae’r data yma yn dangos bod y galw am y gwasanaeth a’r gwasanaeth a ddarperir wedi cynnyddu dros y tair blynedd diwethaf. Mae hyn oherwydd bod mwy o gyfeiriadau newydd wedi cyrraedd y tim na phobl ifanc yn trosglwyddo i wasanaethau oedolion. Mae niferoedd o gyfeiriadau ar gyfer plant ifanc gyda anghenion dwys hefyd wedi cynyddu.

3.8 Mae gwasanaeth Hafan y Sêr yn darparu egwyl fer 5 diwrnod/noson yr wythnos - yn agored o 12pm Dydd Mercher i 10am fore Llun ar gyfer y ddarpariaeth egwyl fer. Mae’r plant sydd yn derbyn y gwasanaeth yn dod i aros yn ddibynnol ar beth yw’r angen a aseswyd sydd yn cael ei adnabod yn eu cyfeiriadau. Gan amlaf mae’r mwyafrif yn dod am gyfnod o ddwy noson bob 6 wythnos. Er hynny mae rhai yn dod yn fisol ac am gyfnod o 3 noson ar y tro os yw eu anghenion/sefyllfaoedd adref yn fwy cymhleth. Mae’r gwasanaeth hefyd yn cyd-weithio gyda gweithwyr cymdeithasol Derwen i fod yn hyblyg i fedru cynnig darpariaeth uwch yn ystod cyfnodau o straen ym mywydau teuluoedd.

3.9 Mae’r ddarpariaeth newydd - ers canol Ionawr - yn golygu bod Hafan y Sêr yn agored 7 diwrnod yr wythnos i gynnig lleoliad i un plentyn o dan drefniadau Adran 73(1) a hefyd yn rhoi mwy o hyblygrwydd i allu defnyddio’r ail lofft o fewn y darn yma o’r adeilad i gynnig gwasanaeth i deuluoedd yn ddibynnol ar yr anghenion fydd yn codi wrth i ni symud yn ein blaenau.

3.10 Mae niferoedd o blant sydd yn derbyn gwasanaeth yn Hafan Y Sêr fel y gwasanaeth Cefnogol Derwen wedi cynyddu yn y tair blynedd diwethaf. Mae niferoedd uwch yn yr oedrannau 8-15 sydd yn derbyn gwasanaeth Hafan Y Sêr. Gweler y data isod:-

3.11

| Blynyddoedd | Niferoedd |
|---|---|
| 21/22 | 34 |
| 22/23 | 38 |
| 23/24 | 45 |

3.12

| Oedrannau | Niferoedd |
|---|---|
| 8-11 Oed | 20 |
| 12-15 Oed | 19 |
| 16-18 Oed | 6 |

3.13 Mae rhestr aros yn bodoli oherwydd bod y capasiti yn llawn ar hyn o bryd o ran y plant y gall Hafan Y Sêr gynnig gwasanaeth iddynt. Mae hyn yn deillio o faint o blant ellir eu cyfatebu i fod yn aros hefo'i gilydd ar yr un pryd, a hefyd lefel staffio addas ar gyfer cyfarch yr anghenion hynny.

## 4.0 **A yw'r ddarpariaeth yn cwrdd gyda'r galw?**

### **4.1 Gwasanaeth Cefnogol**

4.2 Mae Amser Ni wedi bod yn hynod o fuddiol ond mae rhwystrau wedi bod ar hyd y ffordd i wneud yn siŵr bod darpariaeth yn ei le yn cwrdd y galw. Mae recriwtio gwirfoddolwyr wedi bod yn broblem fawr dros y blynyddoedd diwethaf, hwn yn broblem genedlaethol, lle mae mwy o bobl yn ceisio chwilio am waith cyflogedig yn lle gwirfoddoli. Trwy barhau i hysbysebu a chwilio mae'r swyddog egwyl fer wedi creu cysylltiadau newydd yn ddiweddar a trwy hyn wedi gallu recriwtio 3 gwirfoddolwr newydd. Mae y tim maethu hefyd yn darparu elfen o Amser Ni. Mae nifer bychan o ofalwyr maeth sy'n cymryd lleoliadau cyffredinol sydd hefyd yn darparu lleoliadau Amser Ni. Er hynny, mae hyn yn newid dros amser ac fel arfer dim ond un neu ddau o'r aelwydydd cyffredinol yw hynny. Mae'r Tim Maethu yn trafod gydag Amser Ni sut i gysylltu'n well a datblygu darpariaeth ehangach.

### **4.3 Hafan Y Sêr**

4.4 Mae darpariaeth Hafan Y Sêr yn cwrdd y galw ac oherwydd y ddarpariaeth sydd yn ei le mae yn tynnu pwysau aruthrol oddi ar rieni sydd yn ymdopi gydag anghenion dwys eu plant pan maent eisiau egwyl fer ac felly yn atal plant rhag mynd i ofal. Mae'r uned wedi agor bellach dros 7 diwrnod yr wythnos. Mae un plentyn Ynys Môn yn cael budd o'r ddarpariaeth ac mae hyn yn creu incwm i'r Cyngor ac yn atal plentyn rhag mynd i ofal.
4.5 Mae adborth gan deuluoedd yn gadarnhaol ac yn datgan gwerthfawrogiad am y ddarpariaeth, ac am y seibiant o'i rôl gofalu.
4.6 Mae'r plant sy'n mynychu yn cael y cyfle i fagu hyder a phrofiadau newydd.
4.7 Mae 9 cyfeiriad ar hyn o bryd ar y rhestr aros. Mae Hafan y Sêr yn cyd-weithio hefo Derwen yn rheolaidd i benderfynu ar y blaenoriaethau ar gyfer derbyn mynediad i wasanaeth er mwyn sicrhau ein bod yn medru targedu cychwyn gwasanaeth i'r plant/teuluoedd sydd ei angen fwyaf.
4.8 Yn dilyn pob arhosiad yn Hafan y Sêr mae'r rhieni/gofalwyr yn derbyn adroddiad ysgrifenedig am yr arhosiad.
4.9 Mae gofyn am y 2 wasanaeth sef Tim Cefnogol Derwen a Hafan y Sêr wedi codi ac er mai niferoedd bychan sydd ar y rhestr aros ar gyfer y ddau wasanaeth. Er bod rhestrau aros mae gwasanaeth yn cael ei gynnig i'r teuluoedd. Fel enghraifft os yw'r plentyn ar rhestr aros i Hafan Y Sêr mae gwasanaeth Derwen yn gwneud yn siwr bod y rhieni yn ymwybodol o hyn ac yn cynnig mwy o oriau cefnogol yn y cyfamser. Yn ychwanegol, i helpu gyda'r pwysau ar y gwasanaeth Cefnogol byddwn yn trafod yn rheolaidd yr opsiwn o dderbyn taliadau uniongyrchol efo'r rhieni/gofalwyr. Felly drwy weithio yn agos fel 2 dim mae modd cwrdd y galw yng Ngwynedd. Mae adborth sydd wedi cael ei roi gan rieni/gwarchodwyr ar gyfer y 2 wasanaeth hefyd yn gwerthfawrogi bod y gwasanaethau ar gael. Gweler isod sylwadau sydd wedi ei roi gan rieni/gwarchodwyr sydd yn defnyddio y gwasanaethau:

4.10 Dyfyniad 1- *"Thank you and the whole Derwen team for some fantastic trips this year, they are much appreciated."*

4.11 Dyfyniad 2 – *“Having a link to you guys is always a comfort as I know there's always help there for her.”*
4.12 Dyfyniad 3: *“Lots of different activities with friendly approachable staff…. Lovely session thank you!”*
4.13 Dyfyniad 4 – *“Good fun, good range of Activities. Great team! Thank you.”*
4.14 Dyfyniad 5 – *“Pawb yn glen a chroesawgar a barod i helpu. Wedi mwynhau.”*

| | |
|---|---|
| CYFARFOD | Pwyllgor Craffu Gofal |
| DYDDIAD | 11 Ebrill 2024 |
| EITEM | GRŴP TASG A GORFFEN CYNLLUN AWTISTIAETH |
| PWRPAS | Cyflwyno canfyddiadau ac argymhellion y Grŵp Tasg a Gorffen |
| CADEIRYDD Y GRŴP TASG A GORFFEN | Cynghorydd Elwyn Jones |
| AWDUR | Vera Jones, Rheolwr Democratiaeth ac Iaith |

1. <u>CEFNDIR</u>

1.1 Cyflwynwyd diweddariad ar Gynllun Awtistiaeth Gwynedd i gyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Gofal ar 20 Ebrill 2023. Cafwyd ymatebion i nifer o faterion a gododd yn ystod cyfarfod y pwyllgor, ond fe gododd rhai materion ychwanegol a phenderfynwyd sefydlu grŵp tasg a gorffen i drafod y mater ymhellach.

1.2 Datblygwyd briff ar gyfer y gwaith, ac erbyn Ionawr 2024 roedd aelodaeth y grŵp wedi ei ffurfio, sef y Cynghorwyr Elwyn Jones, Gareth Coj Parry, Jina Gwyrfai, Gwynfor Owen a Dawn Lynne Jones. Diweddarwyd y briff i gynnwys yr aelodaeth, swyddogion perthnasol ac amserlen, ac mae copi o'r briff wedi ei ddiweddaru i'w weld yn Atodiad A.

1.3 Cyfarfu aelodau'r grŵp tasg a gorffen ar 19 Chwefror 2024 gyda'r dasg o "sicrhau dealltwriaeth o weithrediad cynllun Awtistiaeth Gwynedd yn ei gyfanrwydd", gan gynnwys:

- dealltwriaeth o'r gefnogaeth sydd ar gael i unigolion a'u teuluoedd wrth ddisgwyl asesiad, ac a oes unrhyw rwystrau wrth ddisgwyl asesiad
- yn dilyn disgwyl asesiad neu dderbyn diagnosis, yn arbennig y gefnogaeth sydd ar gael i blant o fewn ein hysgolion, ac a oes unrhyw rwystrau

1.4 Dymuna'r grŵp ddiolch i'r holl swyddogion a thimau perthnasol am eu gwaith caled yn cefnogi unigolion a'u teuluoedd ym maes Awtistiaeth – mae'n gam mawr ymlaen i fod yn gweithio ar draws timau a sefydliadau a chroesawir hynny.

2. <u>TRAFODAETHAU'R GRŴP TASG A GORFFEN</u>

2.1 Cyflwynwyd papurau rhag-blaen i'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Chwefror, a chafwyd cyflwyniad cryno gan Aled Gibbard ar y cynnydd ar raglen waith y Cynllun Awtistiaeth, Dr Einir Peters ar ran Natalie Woodward ar drefniadau aros am asesiad niwro-ddatblygiadol, a Delyth Gibbard ar gefnogaeth ym myd Addysg. Rhoddwyd cyfle i'r holl aelodau godi cwestiynau.

**Diweddariad ar weithrediad Cynllun Awtistiaeth Gwynedd gan amlinellu'r camau ychwanegol sydd wedi eu cyflawni ers cyflwyno i gyfarfod y Pwyllgor Craffu Gofal ar 20 Ebrill 2023.**

2.3 Cyflwynwyd diweddariad o'r camau gweithredu sydd wedi digwydd ac yn parhau i ddigwydd a rhoddwyd cyfle i'r holl Gynghorwyr ofyn cwestiynau.

2.4 Wrth gydnabod fod y gwasanaethau yn cefnogi ystod eang o anghenion nodwyd bod angen sicrhau nad oedd neb yn disgyn trwy'r rhwyd e.e. unigolion ag awtistiaeth yn unig (ac nad

oes ganddynt anabledd dysgu). Wrth drafod amlygwyd bod cefnogaeth ar gael ar draws yr holl wasanaethau a bod hynny yn hanfodol. Nodwyd yr angen i amlygu'r mewnbwn a'r cydweithio ar draws y gwahanol adrannau (a gydag asiantaethau eraill) fel rhan o'r Cynllun Awtistiaeth.

2.5 Nodwyd hefyd bod lle i gryfhau'r geiriad i nodi mai "datblygu cyfeiriad strategol" ddylai'r pwrpas fod yn hytrach na "darparu cyd-destun i ddatblygu cyfeiriad strategol" ar gyfer diweddaru'r cynllun yn 2024-25, er yn derbyn yr esboniad mai'r geiriad addas ar gyfer cychwyn y daith oedd wedi ei nodi yn wreiddiol.

2.6 Codwyd nifer o faterion wrth drafod pobl ifanc ac amlygwyd fod y llwybr a'r gefnogaeth sydd ar gael i bobl ifanc 16 oed wrth ddisgwyl asesiad yn amrywio gan bod anghenion pob unigolyn yn wahanol. Eglurwyd y byddai unigolyn oedd yn derbyn gwasanaeth yn barod yn parhau i dderbyn y gefnogaeth (e.e. trwy Derwen, Tîm Integredig Plant Anabl), tra bo unrhyw un yn gallu cysylltu gyda'r tîm Awtistiaeth i dderbyn cyngor ac arweiniad.

2.7 Adroddwyd y byddai trefniadau ar gyfer plant mewn gofal yn digwydd yn yr un modd â'r uchod, gan nodi bod cyfrifoldeb i gefnogi unigolion mewn gofal hyd eu bod yn 25 oed pe baent yn dewis derbyn y gefnogaeth hynny. Eglurwyd bod cydweithio rhwng y gwasanaeth plant ac oedolion yn allweddol, gyda chychwyn cynllunio parhad cefnogaeth o pan fo'r unigolyn yn 14 oed, gyda'r cynllunio ar gyfer trosglwyddo i wasanaethau oedolion yn dwysáu pan fo'r unigolyn yn 16-17 oed. Trafodwyd bod posibilrwydd i gryfhau ac amlygu'r trefniadau sydd mewn lle.

2.8 Trafodwyd sefyllfa hyfforddiant i staff allweddol (sy'n ymwneud â phobl gydag awtistiaeth) yn y gwasanaeth plant, oedolion ac ysgolion, a hyfforddiant mwy cyffredinol i bawb. Nodwyd yr angen i arfogi cymaint o bobl â phosib trwy'r hyfforddiant, yn arbennig staff rheng-flaen (e.e. o fewn ysgolion). Pwysleisiwyd yr angen i sicrhau bod pawb sydd yn gweithio'n uniongyrchol efo Awtistiaeth yn cael hyfforddiant ac eglurwyd bod y cod yn glir bod unrhyw swyddog sydd yn dod i gysylltiad efo'r cyflwr i gael hyfforddiant.

2.9 Wrth drafod darpariaeth mewn ysgolion trafodwyd gofod o fewn ysgolion hefyd. Nodwyd yr angen i sicrhau mewnbwn buan gan swyddogion proffesiynol o'r maes awtistiaeth i gynlluniau adeiladau ysgolion ac unrhyw adeiladau newydd eraill – yn benodol i sicrhau eu bod yn cyfarch gofynion disgyblion ag awtistiaeth (e.e. argaeledd ystafell dawel a gallu lleihau'r golau) tra'n derbyn yr angen i arfogi'r disgyblion i allu ymdrin â ffactorau ac amgylchiadau o'u cwmpas.

**Esboniad o'r broses wrth i unigolion (a'u teuluoedd) ddisgwyl asesiad, gan esbonio pa gefnogaeth sydd ar gael wrth ddisgwyl asesiad ac yn dilyn diagnosis, pa rwystrau sy'n bodoli a beth sy'n cael ei wneud am y rhwystrau hynny.**

2.10 Esboniwyd y gall teuluoedd wneud cais am asesiad yn dilyn trafod gyda'u meddyg neu gyda Chydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn yr ysgol, ond fod canllawiau penodol i'w dilyn wrth ofyn am asesiad.

2.11 Cyflwynwyd ffigyrau oedd yn dangos fod dros 50% o blant oedd yn derbyn asesiad ddim yn derbyn diagnosis ar ôl proses asesu drylwyr. Wrth drafod ymhellach, amlygwyd cymhlethdod anghenion plant a phobl ifanc ac yn sgil hynny yr ystod cefnogaeth ymddygiadol ac emosiynol sy'n angenrheidiol i'w ddarparu, yn arbennig yn ein hysgolion. Mynegwyd pryder bod cyfeirio unigolion anghymwys am asesiad yn gallu bod ar draul unigolion sydd ag awtistiaeth. Nodwyd

bod yr uned niwro-ddatblygiadol yn gweithio gyda chyfeirwyr i geisio lliniaru'r sefyllfa, gan geisio codi ymwybyddiaeth cyfeirwyr o'r anghenion ymhellach.

2.12 Ar y llaw arall, roedd pryder y gallai hyn fod yn cau'r drws petai unigolion (merched gan amlaf) yn gallu cuddio'r cyflwr yn well, a nodwyd fod rhai yn dilyn proses "gwylio gofalus" (*watchful waiting*) er mwyn cael asesiad tymor hwy. Amlygwyd hefyd fod rhai unigolion wedi eu hasesu gyda chyflwr gwahanol yn dilyn y broses.

2.13 Pwysleisiwyd bod cefnogaeth yn cael ei roi i'r ymddygiad sy'n cael ei gyflwyno gan ddisgyblion mewn ysgolion, ac na ddylai fod ar restr aros am asesiad wneud gwahaniaeth. Nodwyd bod cyfle i newid y "naratif" sydd ynghylch "rhestrau aros" i bwysleisio fod y gefnogaeth yma ar gael yn yr ysgolion.

**Esboniad gan yr Adran Addysg o pa gefnogaeth sydd ar gael i blant o fewn ein hysgolion wrth ddisgwyl am asesiad neu yn dilyn derbyn diagnosis. Pa rwystrau sy'n bodoli a beth sy'n cael ei wneud am y rhwystrau hyn?**

2.14 Gofynnwyd am amlygu cysylltiad yr Adran Addysg a'u mewnbwn i'r Cynllun Awtistiaeth a phwysleisiwyd eto fod cefnogaeth yn cael ei gynnig yn ein hysgolion i'r angen sy'n amlygu, a hynny wrth i unrhyw ddisgybl fod yn aros asesiad neu ddisgyblion nad ydynt wedi eu cyfeirio am asesiad.

2.15 Nodwyd bod mwy o ofynion ac ymddygiadau yn ddiweddar, a holwyd ynghylch effaith hynny ar gapasiti y timau arbenigol sy'n cefnogi staff ysgolion. Adroddwyd bod y tîm yn sefydlog ar hyn o bryd. Tra'n trafod y prinder therapyddion iaith a seicolegwyr addysg yn genedlaethol, amlygwyd bod trefniadau hyfforddi i'r proffesiwn yn heriol gan bo gofynion, yn gyffredinol gan Brifysgolion Lloegr fod seicolegwyr addysg sy'n hyfforddi yno yn ymrwymo i weithio yn Lleogr yn dilyn cymhwyso. Mae'r Aelodau'n hynod falch nodi fod trafodaethau yn digwydd yn gyfredol gyda Phrifysolion Cymru i geisio dod i ddealltwriaeth am drefniadau a darpariaeth hyfforddi swyddogion arbenigol i'r dyfodol.

2.16 Esboniwyd bod hyfforddiant am awtistiaeth yn cael ei gynnig i staff ym mhob ysgol yng Ngwynedd a Môn, gyda'r hyfforddiant wedi ei deilwra yn unol â gofynion yr ysgolion. Fodd bynnag, mae hynny ar sail cylchdro ac yn annatod felly ni ellir gwarantu fod pawb ym mhob ysgol wedi derbyn yr hyfforddiant yn sgil staff yn gadael a staff newydd yn cael eu penodi. Cadarnhawyd bod problem cadw cymorthyddion sydd wedi eu hyfforddi gan fod trosiant cyson o staff. Trafodwyd yr angen i hyfforddi staff gan ystyried gosod targedau ar ôl adnabod y gwaelodlin.

2.17 Trafodwyd cefnogaeth i unigolion 16 oed sy'n gadael ysgol, a nodwyd bod systemau yn cael eu datblygu rhwng yr Adran Addysg a Choleg Meirion Dwyfor i gefnogi'r unigolion, gan fod lle i wella'r trefniadau a'r ddarpariaeth bresennol. Nodwyd hefyd fod cefnogaeth ar gael gan y gwasanaeth Addysg a'r gwasanaeth Oedolion gan amrywiol dimau megis y tîm Awtistiaeth, tîm Addysg 16-24 oed a'r tîm cyflogadwyedd – yn ddibynnol ar anghenion yr unigolyn. Nododd yr aelodau fod lle i amlygu'r gefnogaeth bosib a'r cysylltiadau rhwng y gwahanol dimau ac amlygu hynny yn y Cynllun Awtistiaeth.

2.18 Wrth drafod trosglwyddiad rhwng tîm plant neu Addysg i'r gwasanaeth oedolion gofynnwyd a oedd y ffordd bresennol o benderfynu pa dîm o'r gwasanaeth Oedolion oedd yn cynnig cefnogaeth yn gywir. Nodwyd bod y risgiau a'r heriau ynghylch y trefniadau cyfredol wedi eu hadnabod eisoes a bod angen ystyried gweithredu wrth edrych ar y person yn hytrach na'r

"bocs" gwasanaeth y byddent yn disgyn iddo. Amlygodd yr Aelodau eu cefnogaeth i fwrw ymlaen gyda'r gwaith pwysig yma.

**Amserlen a chamau gweithredu**

2.19 Cyflwynwyd yr amserlen a chamau gweithredu ar gyfer 2023-24 fel rhan o'r papurau i'r cyfarfod, gan nodi y bydd rhaglen a chamau gweithredu 2024-25 yn cael eu llunio yn fuan.

2.20 Amlygwyd mai arian grant y Gronfa Integredig sy'n ariannu 70% o'r cynllun presennol gydag arian refeniw y Cyngor yn ariannu 30% o'r gwaith. Mae arian grant ar gael am 3 i 4 blynedd arall ond nodwyd yr her dros y cyfnod i ddod i gyflawni'r datblygiadau a phrofi llwyddiant y cynllun.

3. CANFYDDIADAU'R GRŴP TASG A GORFFEN

3.1 Canfyddiad = beth ydym wedi ei ddarganfod yn sgil gwaith y Grŵp Tasg a Gorffen.

3.2 Fel y gwelir o'r trafodaethau uchod amlygwyd nifer o faterion yn ystod y sesiwn. Cododd rhai materion oedd eisoes yn derbyn sylw gan y gwasanaeth, a materion eraill sydd am dderbyn sylw yn dilyn y sesiwn. Gweler isod ganfyddiadau'r Grŵp Tasg a Gorffen:

| | |
|---|---|
| a | CYNLLUN AWTISTIAETH |
| | Mae cynnydd amlwg wedi ei wneud dros y misoedd diwethaf yn dilyn sefydlu'r Tîm Awtistiaeth a'r gwaith rhwng y gwahanol adrannau ac asiantaethau er budd yr unigolyn. |
| b | Cynllun Awtistiaeth - geiriad |
| | • Dylid diweddaru geiriad pwrpas y cynllun i "ddatblygu cyfeiriad strategol" yn hytrach na "darparu cyd-destun ar gyfer datblygu cyfeiriad strategol"<br>• Dylid amlygu mewnbwn Addysg, Oedolion, Iechyd a Plant i'r cynllun a chynnig mwy o fanylder ynghylch eu darpariaeth<br>• Mae lle i amlygu'r gefnogaeth sydd ar gael i unigolion sydd ag awtistiaeth yn unig, hynny yw nad oes ganddynt gyflwr arall sy'n derbyn cefnogaeth hefyd. Yn ogystal, mae lle i amlygu'r gefnogaeth sydd ar gael gan y Tîm Awtistiaeth a'r wybodaeth sydd ar y gwahanol safleoedd gwe. |
| c | Cynllun Awtistiaeth - Darpariaeth oedran trosglwyddo (hy 14 – 18 oed) |
| | • lle i amlygu'r gwaith tîm sy'n digwydd yn y cefndir i sicrhau trosglwyddiad a chefnogaeth di-dor i unigolion<br>• lle i amlygu a datblygu ymhellach y cyd-weithio gyda Grŵp Llandrillo Menai i gefnogi unigolion gydag awtistiaeth |
| ch | Cynllun Awtistiaeth - Darpariaeth gwasanaeth oedolion |
| | • Anogaeth i fwrw ymlaen gyda'r gwaith sydd eisoes ar y gweill o adnabod y person mwyaf addas ar gyfer cefnogi unigolyn gydag awtistiaeth (yn ddibynnol ar a oes cyflyrau eraill ayyb) yn hytrach na cheisio eu rhoi mewn bocs ar gyfer cefnogaeth gan y tîm iechyd meddwl neu'r tîm anableddau dysgu |
| d | Rhestr aros am asesiad |
| | • Lle i weithio ar geisio newid y naratif a phwysleisio'r neges fod cymorth ar gael wrth ddisgwyl am asesiad (trwy ysgolion, y tîm awtistiaeth, sesiynau/digwyddiadau ymwybyddiaeth a safleoedd gwe) |
| dd | Staff Arbenigol |
| | • Cefnogi'r trafodaethau sy'n digwydd gyda Phrifysgolion Cymru er mwyn ceisio dod i ddealltwriaeth ar drefniadau hyfforddi staff arbenigol i'r dyfodol. |

3.3 Er y tu allan i sgôp gwaith y grŵp tasg a gorffen, mae'r aelodau am dynnu sylw'r Pwyllgor at effaith y gofyn uwch mewn anghenion ar:
a) allu y timau i gefnogi unigolion a'u teuluoedd sydd ag awtistiaeth
b) capasiti y timau i fod yn cefnogi yr holl ystod o anghenion gan ddisgyblion ac
c) ar arbenigedd angenrheidiol mewn ysgolion i fod yn cefnogi yr holl wahanol ofynion sy'n bodoli.

4. <u>ARGYMHELLION Y GRŴP TASG A GORFFEN</u>

4.1 Gofynnir i'r gwasanaethau roi ystyriaeth penodol i'r canfyddiadau uchod. Fodd bynnag, mae rhai materion sydd wedi dod i'n sylw y dymunwn gyflwyno argymhellion penodol ar eu cyfer.

4.2 **HYFFORDDIANT**

Argymhellir fod y pwyllgor yn gofyn i'r gwasanaeth:

- gynnal awdit o sefyllfa hyfforddiant staff proffesiynol sy'n gweithio yn y maes fel cam cyntaf
- Yna ystyried gosod targed ar gyfer cyflawni hyfforddiant gan anelu i'w cynnwys ar y rhaglen hyfforddiant craidd fel a ganlyn:
  - a) staff sy'n gweithio neu'n dod i gyswllt gyda phobl ag awtistiaeth (fesul adran a chan gynnwys ysgolion) a
  - b) hyfforddiant codi ymwybyddiaeth ymhlith holl staff y Cyngor.
- Adeiladu ar yr hyfforddiant i staff mewn ysgolion a meddygfeydd ynghylch cyfeirio at y tîm niwro-ddatblygiadol mewn achosion nad ydynt yn gymwys
- Annog yr holl Gynghorwyr i ddilyn yr e-fodiwl hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Awtistiaeth a mynychu dyddiau agored ar draws y Sir sy'n galluogi pawb i gael profiad ar y bws awtistiaeth

4.3 **CYNLLUNIO YSGOLION AC ADEILADAU'R CYNGOR**

Argymhellir fod y Pwyllgor Craffu ar y cyd â'r Aelod Cabinet Plant a Theuluoedd yn cysylltu gyda'r Aelod Cabinet Tai ac Eiddo i sicrhau mewnbwn gan y Tîm Awtistiaeth i ddatblygiad unrhyw ysgol newydd neu addasiadau i unrhyw ysgol i'r dyfodol er mwyn ei gwneud yn addas i unigolion gydag awtistiaeth e.e. gofod tawel, gallu lleihau'r golau ayyb. Byddai'n fuddiol sefydlu'r egwyddor o sicrhau mewnbwn gan y tîm Awtistiaeth ar gyfer unrhyw ddatblygiad newydd neu addasiad i unrhyw adeilad gan y Cyngor.

4.4 **DIWEDDARIAD I'R PWYLLGOR CRAFFU GOFAL**

Yn sgil pryder fod y cynllun yn cael ei ariannu trwy grant yn gyfredol, argymhellir fod y Pwyllgor Craffu Gofal yn gofyn am ddiweddariad <u>ymhen 12 mis</u> pellach o weithredu i sicrhau fod cynnydd yn parhau i ddigwydd, gan ofyn am fewnbwn Addysg a Iechyd unwaith eto.

**Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried canfyddiadau ac argymhellion y Grŵp Tasg a Gorffen.**

**GRŴP TASG A GORFFEN**
**CYNLLUN AWTISTIAETH**
BRÎFF

## Beth yw'r mater sy'n cael ei ystyried?

Cyflwynwyd diweddariad ar Gynllun Awtistiaeth Gwynedd i gyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Gofal ar 20fed o Ebrill, 2023. Cyflwynwyd diweddariad ar y gwaith sy'n mynd yn ei flaen, gan gynnwys diweddariad staffio, camau codi ymwybyddiaeth, hyfforddiant a gweithio mewn partneriaethau. Yn ogystal, bu i'r Aelodau Cabinet dros Wasanaethau Plant ac Oedolion gyflwyno blaenoriaethau'r 6 mis i ddod.

Cafwyd ymatebion i nifer o faterion a gododd yn ystod cyfarfod y pwyllgor, ond fe gododd rhai materion ychwanegol ynghylch profiad yr unigolyn wrth ddisgwyl diagnosis, rhwystredigaeth yn y gymuned ynghylch rhestrau aros am ddiagnosis a diffyg dealltwriaeth glir o'r gefnogaeth ar gael mewn ysgolion yn dilyn derbyn diagnosis.

Penderfynodd y pwyllgor eu bod yn awyddus i sefydlu grŵp tasg a gorffen i drafod y mater ymhellach gan wneud cais am sicrhau cynrychiolwyr o'r Adran Addysg a'r Bwrdd Iechyd i fod yn bresennol i ateb rhai o'r pryderon. Penderfynwyd i estyn gwahoddiad i gynrychiolwyr o'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi hefyd gan fod y gwaith yn pontio meysydd y ddau bwyllgor.

Bwriad y gwaith yw sicrhau dealltwriaeth o weithrediad Cynllun Awtistiaeth Gwynedd yn ei gyfanrwydd, gan gynnwys:

- dealltwriaeth o'r gefnogaeth sydd ar gael i unigolion a'u teuluoedd wrth ddisgwyl diagnosis, ac a oes unrhyw rwystrau wrth ddisgwyl diagnosis
- yn dilyn diagnosis, yn arbennig y gefnogaeth sydd ar gael i blant o fewn ein hysgolion, ac a oes unrhyw rhwystrau

## Camau i weithredu

- Pwyllgor Craffu Gofal i dderbyn y briff ac adnabod 3 Aelod i gymryd rhan. (21/09/2023)
- Gwahodd cynrychiolwyr o'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi (2 aelod) i gymryd rhan. Byddwn yn gohebu gydag aelodau'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi dros ebost yn dilyn penderfyniad y Pwyllgor Craffu Gofal ar 21/09, gan gadarnhau'r aelodaeth yn ffurfiol yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar 09/11/2023.
- Cynnal cyfarfod ar gyfer y 5 aelod gyda chynrychiolwyr o'r Adrannau Plant, Oedolion ac Addysg, a chynrychiolydd o'r Bwrdd Iechyd. (~~Union ddyddiad i'w gadarnhau yn dilyn trafodaeth gyda phartneriaid allweddol – rhagwelir diwedd 2023/cychwyn 2024)~~
- Cyfarfod y Grŵp Tasg a Gorffen ar 19.02.2024

Diweddarwyd ar gyfer cyfarfod cyntaf y Grŵp Tasg a Gorffen, 19.02.2024

- Pwrpas y cyfarfod:
- Bwriad y gwaith yw sicrhau dealltwriaeth o weithrediad Cynllun Awtistiaeth Gwynedd yn ei gyfanrwydd, gan gynnwys:
- dealltwriaeth o'r gefnogaeth sydd ar gael i unigolion a'u teuluoedd wrth ddisgwyl diagnosis, ac a oes unrhyw rwystrau wrth ddisgwyl diagnosis
- yn dilyn diagnosis, yn arbennig y gefnogaeth sydd ar gael i blant o fewn ein hysgolion, ac a oes unrhyw rhwystrau

- 2il gyfarfod y Grŵp Tasg a Gorffen ar 28.02.2024 er mwyn llunio casgliadau yn dilyn derbyn y wybodaeth ychwanegol ar 19.02.2024. Llunio adroddiad byr yn seiliedig ar y casgliadau o'r cyfarfod hwn.

- Adrodd nol i'r Pwyllgor Craffu Gofal – ~~1af o Chwefror 2024 (yn ddibynnol ar ddyddiad y cyfarfod uchod).~~ 11 Ebrill 2024.

## Aelodaeth y Grŵp Tasg a Gorffen

Y Cynghorwyr Jina Gwyrfai, Elwyn Jones, Gareth Coj Parry, Dawn Lynne Jones, Gwynfor Owen

## Swyddogion allweddol

Cynhelir y cyfarfod i'r 5 aelod fydd wedi eu hadnabod i gymryd rhan yn y grŵp tasg a gorffen gyda'r swyddogion allweddol isod:

| ADRAN | SWYDDOG ALLWEDDOL |
|---|---|
| Plant | Aled Gibbard, Uwch Reolwr Gweithredol (Adran Plant)<br>Lucy Hemmings, Arweinydd Ymarfer, Tîm Awtistiaeth Gwynedd |
| Oedolion | Mari Wyn Jones ~~Helen Fôn Owen~~, Uwch Reolwr ~~Anableddau Dysgu~~ Gwasanaethau Oedolion<br>Bethan Mair Williams, Arweinydd Tîm Anableddau Dysgu De Gwynedd |
| Addysg | Delyth Gibbard, Uwch Athrawes Cyfathrebu a Rhyngweithio<br>Dr Einir Peters, Uwch Seicolegydd Addysgol ym maes Cyfathrebu a Rhyngweithio |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | ~~I'w gadarnhau~~<br>Natalie Woodworth, Rheolwr Gwasanaeth y tîm niwroddatblygiadol |

Allwedd i'r newidiadau ar gyfer 19.02.2024
Ychwanegiadau mewn glas,
~~wedi ei ddileu~~